



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

06/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

30/01/2020

Gwerthusiad o'r cyrchfannau denu twristiaeth: adroddiad interim

Gwerthusiad o'r Cyrchfannau Denu Twristiaeth: Adroddiad Interim

Brett Duggan, David Howells, Peter Cole, Tanwen Grover a Jennifer Lane,
Arad



Adroddiad ymchwil llawn: Duggan, B. Howells, D. Cole, P. Grover, T. Lane, J: Arad Research (2020) Gwerthusiad o'r Cyrchfannau Denu Twristiaeth: Adroddiad Interim. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad YGLI 06/2012.

Ar gael yma: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-cyrchfannau-denu-twristiaeth-adroddiad-interim-cyhoeddiad>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tom Stevenson

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 062 2570

E-bost: tom.stevenson2@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr tablau	2
Rhestr ffigyrau	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad	5
2. Cefndir a chyd-destun y gweithrediad	12
3. Prosesau casglu data ar lefel gweithredu a phrosiect	23
4. Canfyddiadau gwerthuso interim	34
5. Integreiddio themâu trawstoriadol a'r iaith Gymraeg yng ngweithrediad	45
6. Marchnata	51
7. Casgliadau ac argymhellion interim	53
Cyfeiriadau	61
Atodiad A: dulliau ymchwil gwerthuso interim	62
Atodiad B: Crynodebau prosiect TAD	70

Rhestr tablau

Tabl 1.1: Cwmpas a chynnwys y gwerthusiad interim	7
Tabl 2.1 Dangosyddion a thargedau WEFO ar gyfer Blaenoriaeth 4.4 a thargedau ategol ar gyfer gweithrediad TAD	13
Tabl 2.2 Trosolwg o'r 13 prosiect TAD.....	20
Tabl 3.1 Data ar wariant gweithrediad TAD hyd yma fesul prosiect a chyfansymiau.....	25
Tabl 3.2 Ffynonellau cyllid ychwanegol ar gyfer gweithrediad TAD	26
Tabl 3.3 Dangosyddion a thargedau WEFO ar gyfer Blaenoriaeth 4.4 a thargedau cysylltiedig ar gyfer gweithrediad TAD	27
Tabl 3.4 Effeithiau ehangach TAD y'u rhagwelir	29
Tabl 4.1 Y gwahanol lefelau o newid trawsnewidiol: fframwaith cychwynnol.....	35
Tabl 7.1 Camau nesaf yn y gwerthusiad.....	60

Rhestr ffigyrau

Ffigur 2.1 Map yn darlunio lleoliadau prosiect TAD a statws prosiectau yng Ngorffennaf 2019	22
---	----

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Awdurdod Rheoli	WEFO yw'r Awdurdod Rheoli ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru
BBaCh	Busnes bach a chanolig
Buddiolwyr ar y cyd	Sefydliadau sy'n arwain y 13 prosiect sy'n derbyn cyllid drwy Croeso Cymru
Buddiolwr arweiniol	Yn cyfeirio at rôl Croeso Cymru wrth arwain a rheoli gweithrediad TAD
Buddiolwyr partner	Sefydliadau sy'n arwain/cefnogi elfennau annibynnol o brosiectau. Yn derbyn cyllid drwy fuddiolwyr ar y cyd.
ThT / ThD	Themâu trawsbynciol / Thema drawsbynciol
CALI	Cyfwerth ag Amser Llawn
CC	Croeso Cymru
ERDF	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (European Regional Development Fund) <i>[Defnyddir yr acronym Saesneg yn yr adroddiad hwn]</i>
E4G	Amgylchedd ar gyfer Twf (Environment 4 Growth) – rhaglen o 6 prosiect twristiaeth a ariannwyd fel rhan o gylch Cyllid Ewropeaidd 2007-13
Gweithrediad	Gweithrediad Cyrchfannau Denu Twristiaeth neu weithrediad TAD. Y term cryno cyfunol ar gyfer yr 13 prosiect a ariennir.
Rhaglen	Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n ariannu gweithrediad Cyrchfannau Denu Twristiaeth.
RIBA	Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (Royal Institute of British Architects) <i>[Defnyddir yr acronym Saesneg yn yr adroddiad hwn]</i>
(prosiectau) TAD	(prosiectau) Cyrchfannau Denu Twristiaeth (Tourism Attractor Destinations) <i>[Defnyddir yr acronym Saesneg yn yr adroddiad hwn]</i>

TAIS	Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (Tourism Amenity Investment Support) <i>[Defnyddir yr acronym Saesneg yn yr adroddiad hwn]</i>
TISS	Cynllun Cefnogi Buddsoddiad Twristiaeth (Tourism Investment Support Scheme) <i>[Defnyddir yr acronym Saesneg yn yr adroddiad hwn]</i>
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Wales European Funding Office) <i>[Defnyddir yr acronym Saesneg yn yr adroddiad hwn]</i>

1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad Research gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2018 i gynnal gwerthusiad o weithrediad Cyrchfannau Denu Twristiaeth (TAD). Ariennir TAD gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ac mae'n rhan o raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) 2014-2020 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Ei nod yw gweithredu rhaglen gyda buddsoddiad o £62 miliwn ar draws 13 o brosiectau twristiaeth eiconig a strategol, wedi'u blaenoriaethu'n rhanbarthol a fydd yn gwella ansawdd a chanfyddiadau'r cyhoedd o gyrchfannau yng Nghymru. Caiff y gweithrediad ei arwain gan Croeso Cymru fel y buddiolwr arweiniol a 13 o fuddiolwyr ar y cyd ar gyfer y cyrchfannau a ddewiswyd. Mae Croeso Cymru yn is-adran o fewn adran Diwylliant, chwaraeon a thwristiaeth Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar broses ymchwil eang a chynhwysol sy'n cynnwys ymgysylltu â Croeso Cymru, buddiolwyr ar y cyd a sefydliadau partner i gasglu a dadansoddi data cynradd ac eilaidd. Cwblheir yr astudiaeth rhwng Medi 2018 a Mawrth 2021, ac mae'n cymryd lle ochr yn ochr â gweithrediad prosiectau TAD. Yn wir, un nodwedd o'r gwerthusiad yw ei fod yn adlewyrchiad o brosiectau ar wahanol gyfnodau o aeddfedrwydd a datblygiad, yn sgil cyflwyno'r cynllun yn raddol. Serch hynny, mae'r tîm gwerthuso yn hyderus y bydd yr astudiaeth, dros ddwy flynedd a hanner y gwerthusiad, yn adeiladu sail dystiolaeth gadarn sy'n galluogi asesiad o weithrediad, canlyniadau a phwyntiau dysgu ehangach er mwyn llywio blaenoriaethau strategol yn y dyfodol i gefnogi'r economi ymwelwyr.
- 1.3 Mae camau allweddol y gwerthusiad fel a ganlyn:

➤ **Cyfnod cychwynnol a chwmpasu (Medi 2018-Ionawr 2019)**

➤ **Cyfnod interim y gwerthusiad (Ionawr 2019-Medi 2019)**

Egwyl yn y gwerthusiad (Tachwedd 2019-Mehefin 2020)

➤ **Cyfnod terfynol y gwerthusiad (Gorffennaf 2020–Mawrth 2021)**

- 1.4 Mae'r tîm gwerthuso wedi'i gomisiynu i gwblhau dau adroddiad: adroddiad interim (yr adroddiad hwn) yn haf 2019 ac adroddiad gwerthuso terfynol i'w gwblhau erbyn Mawrth 2021. Nod yr adroddiad interim hwn yw asesu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth weithredu cynllun TAD, yn seiliedig ar gyfres o gwestiynau gwerthuso

allweddol (gweler 1.7). Mae'r canfyddiadau'n tynnu ar y data a'r dystiolaeth a gasglwyd rhwng Hydref 2018 a Mehefin 2019. Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn cyflwyno canlyniadau'r cynllun, gan ddefnyddio data a thystiolaeth a gasglwyd gan fuddiolwyr ar y cyd a rhanddeiliaid yn ystod hanner olaf 2020.

1.5 Yn y bennod ragarweiniol hon rydym yn cyflwyno'r canlynol:

- nodau ac amcanion y gwerthusiad, gan gynnwys cwmpas yr adroddiad interim;
- amlinelliad o fethodoleg y gwerthusiad; a
- cynnwys yr adrannau dilynol o'r adroddiad.

Nodau ac amcanion y gwerthusiad

1.6 Astudiaeth dros gyfnod o ddwy flynedd a hanner yw'r gwerthusiad. Bydd y gwerthusiad yn asesu llwyddiant y gweithrediad yn erbyn ei allbynnau a'i amcanion datganedig, ac yn mesur canlyniadau ac effaith ar lefel gweithrediad (h.y. TAD), tra hefyd yn defnyddio deilliannau unigol ar lefel prosiect. Diffiniwyd gofynion y gwerthusiad yn y fanyleb, er na nodwyd unrhyw gwestiynau gwerthuso penodol mewn perthynas â'r adroddiad gwerthuso interim. Mae Tabl 1.1 yn crynhoi cwmpas yr adroddiad hwn. Mae sylwebaeth a dadansoddiad interim yn bosibl mewn perthynas â llawer o amcanion y gwerthusiad; fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran gallu dod i unrhyw gasgliadau cadarn ar adeg pan fo nifer o brosiectau TAD yn dal i fod ar gamau cymharol gynnar o'u datblygiad.

Tabl 1.1: Cwmpas a chynnwys y gwerthusiad interim

Amcan y gwerthusiad	O fewn cwmpas y gwerthusiad interim?
Gwerthuso aliniad strategol gweithgaredd TAD i bolisïau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y cynllun busnes, a rhaglen ERDF Cymru.	Ydy, dadnsoddiad interim (gweler Pennod 4)
Gwerthuso i ba raddau y mae'r gweithgaredd yn mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu diwydiant twristiaeth Cymru.	Ydy, dadansoddiad interim (gweler Pennod 2)
Archwilio'r model gweithredu ar gyfer TAD, gan ganolbwyntio'n arbennig ar werthuso'r dull o fuddsoddi mewn safleoedd ar raddfa fawr.	Ydy, dadnsoddiad interim (gweler Pennod 4)
Asesu i ba raddau y mae'r gweithrediad a phrosiectau unigol wedi cyflawni'r ymrwymadau gweithredu a amlinellwyd yn y cynlluniau busnes, ac wedi cyrraedd targedau dangosyddion perfformiad allweddol.	Nac ydy, i'w gynnwys yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.
Gwerthuso i ba raddau y mae effeithiau ehangach y gweithrediad yn effeithio ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru.	Yn rhannol. Nid yw 'gwerthusiad' eto yn bosibl. Dehongliad a dadansoddiad cychwynnol yn ymwneud â newid trawsnewidiol.
Archwilio profiad a chymhellion ymwelwyr sy'n ymweld â safleoedd prosiect a newidiadau i'r ffactorau hyn dros amser.	Nac ydy, i'w gynnwys yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.
Archwilio'r dull o farchnata'r gweithrediad a'r safleoedd prosiect a nodi sut y gellir gwella gweithgarwch marchnata.	Sylwebaeth cychwynnol yn unig ar weithgarwch (gweler Pennod 6).
Darparu asesiad o'r graddau y mae'r gweithrediad wedi mynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol fel rhan o'r ymyriad.	Yn rhannol – sylwadau cychwynnol yn seiliedig ar ymweliadau i safleoedd prosiect (gweler Pennod 5).
Archwilio i ba raddau y mae prosiectau wedi annog a chyflawni gweithredoedd i gefnogi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.	Yn rhannol – sylwadau cychwynnol yn seiliedig ar ymweliadau i safleoedd prosiect (gweler Pennod 5).

- 1.7 Gellir crynhoi'r cwestiynau y mae'r adroddiad gwerthuso interim hwn yn canolbwyntio arnynt fel a ganlyn:
- Pa gynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran cyflawni gweithrediad TAD?
 - Pa fylchau sydd, os o gwbl, yn y data neu wybodaeth sydd ar gael er mwyn gallu asesu gweithrediad TAD yn erbyn amcanion y gwerthusiad a nodwyd uchod?
 - A oes unrhyw heriau'n gysylltiedig â gallu cyflawni amcanion y gwerthusiad?
 - Beth yw'r pwyntiau dysgu ar gyfer prosiectau neu raglenni sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol?

Methodoleg a sylfaen dystiolaeth

- 1.8 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad interim hwn yn seiliedig ar yr elfennau canlynol, a gwblhawyd rhwng Hydref 2018 a Mehefin 2019.

Ymchwil desg

- 1.9 Adolygodd y tîm gwerthuso ddogfennau cefndirol yn ymwneud â Rhaglen ERDF; gweithrediad TAD a dogfennau polisi perthnasol eraill. Roedd y ddogfennaeth a adolygwyd yn cynnwys:
- Cynllun Busnes Cyrchfannau Denu Twristiaeth;
 - Cynlluniau Busnes unigol Prosiectau TAD;
 - Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) rhaglen weithredol 2014 i 2020, Llywodraeth Cymru;¹
 - *Partneriaeth ar gyfer Twf*: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020;²
 - *Partneriaeth ar gyfer Twf*: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020: Adolygiad Cynnydd, Llywodraeth Cymru;³

¹ [Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: rhaglen weithredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop \(ERDF\) 2014 i 2020](#)

² [Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth, 2013-2020](#)

³ [Partneriaeth ar gyfer Twf Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013 i 2020: Adolygiad o Gynnydd y Strategaeth](#)

- Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: fframwaith adfywio newydd, Llywodraeth Cymru;⁴
- Perfformiad Twristiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru;⁵
- Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr: 2017;⁶
- Adroddiadau Monitro a Gwerthuso Amgylchedd ar gyfer Twf, Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd;⁷
- Gwybodaeth fonitro y gweithrediad: sampl o ffurflenni monitro chwarterol wedi'u llenwi; enghraiffto o asesiad themau troswaol; data allbynnau gan brosiectau sydd wedi cwblhau.

1.10 Mae'r ddogfennaeth strategol a pholisi, y cyfeirir ati yng nghynllun busnes TAD, ynghyd â datganiadau ystadegol, yn rhoi cyd-destun a phwyntiau cyfeirio defnyddiol ar gyfer y gwerthusiad. Bydd y tîm gwerthuso yn parhau i gyfeirio at y ffynonellau hyn yn ystod camau diweddarach yr astudiaeth, gan ystyried cyfraniad y gweithrediad – pan fydd data mwy cyflawn ar gael – tuag at flaenoriaethau strategol ehangach.

Cyfweliadau cwmpasu

- 1.11 Cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu gydag wyth o gynrychiolwyr Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru. Rhoddodd y cyfweliadau gipolwg pellach ar gefndir a chyd-destun strategol y gweithrediad ac fe helpodd hefyd i lywio camau dilynol y gwerthusiad. Cwblhawyd cyfweliadau cychwynnol gyda chynrychiolwyr yr holl fuddiolwyr ar y cyd, gan roi cyfle i ddysgu am y cynnydd hyd yn hyn, yn ogystal â'r ffactorau hwyluso a'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu prosiectau.
- 1.12 Cyflwynwyd canlyniadau'r camau cychwynnol hyn mewn papur cwmpasu mewnol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019.

⁴ [Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Fframwaith Adfywio i Gymru](#)

⁵ [Perfformiad Twristiaeth Cymru](#)

⁶ [Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr: 2017](#)

⁷ [Adroddiadau Gwerthuso Amgylchedd ar gyfer Twf \(E4G\)](#)

Gwaith maes y gwerthusiad interim gyda buddiolwyr ar y cyd a rhanddeiliaid strategol

- 1.13 Ymwelodd y tîm gwerthuso ag 11 o'r 13 safle TAD i siarad â chynrychiolwyr prosiectau, gan gynnwys arweinwyr prosiect, staff eraill a, mewn rhai achosion, buddiolwyr partner a sefydliadau allanol gyda chysylltiadau â'r prosiectau. Yn achos y ddau brosiect nad ymwelwyd â hwy yn bersonol, cynhaliwyd cyfweiliadau â swyddogion prosiect oddi ar y safle. Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid strategol eraill. Cyfwelwyd pum cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru. Ceir canllawiau ar gyfer cyfweiliadau lled-strwythuredig a ddefnyddiwyd fel rhan o'r gwaith maes hwn yn Atodiad A, sy'n nodi'r themâu a'r materion a drafodwyd.
- 1.14 Datgelodd cyfweiliadau cwmpasu gyda buddiolwyr ar y cyd heriau a bylchau posibl yn y data yn gysylltiedig ac amcan y gwerthusiad o archwilio 'profiad a chymhellion ymwelwyr sy'n ymweld â safleoedd prosiect', fel y nodir yn Nhabl 1.1. Er bod gan rai safleoedd TAD ddata cyfredol (neu gynlluniau rhagarweiniol) i gasglu data ar ganfyddiadau ymwelwyr, daethom i'r casgliad bod angen gweithio gyda phartneriaid er mwyn ychwanegu at data a gesglir. Gweithiodd y tîm gwerthuso gyda chydweithwyr Croeso Cymru i nodi cwestiynau ychwanegol i'w cynnwys yn arolwg ymwelwyr Cymru (gyda'r cwestiynau ychwanegol hyn i'w defnyddio gydag ymwelwyr â safleoedd TAD a arolygwyd fel rhan o arolwg ymwelwyr Cymru). Roedd y cwestiynau ychwanegol hyn yn ceisio deall ai, ac i ba raddau, safleoedd TAD oedd y rheswm dros ymweliadau ymwelwyr â'r rhanbarth a hefyd i gasglu data ar foddhad a chanfyddiadau ymwelwyr.
- 1.15 Y rhesymeg dros ganolbwyntio ar ddulliau ansoddol yn bennaf yn ystod cyfnod interim y gwerthusiad oedd y byddai'r ymgysylltiad uniongyrchol hwn â buddiolwyr ar y cyd yn galluogi'r tîm gwerthuso i sefydlu gwybodaeth dda am gynnydd prosiectau, heriau a'r ffactorau a chyd-destun lleol sy'n effeithio ar weithrediad. Er bod y gwerthusiad hwn yn ymwneud yn bennaf â TAD ar lefel weithredol (yn hytrach nag asesu effeithiau prosiectau unigol), rydym serch hynny yn cydnabod yr angen i ddefnyddio data ar lefel prosiect ac i weithio'n agos gyda buddiolwyr ar y cyd i gyrchu'r data mwyaf cadarn sydd ar gael - gan gynnwys profiadau a naratifau prosiectau yn ogystal â data allbwn y mae'n haws ei fesur. Felly, cafodd dulliau sy'n

seiliedig ar arolygon eu hepgor ar ôl dod i benderfyniad y byddai cyfweiliadau ac ymweliadau safle yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach o gynnydd prosiectau.

- 1.16 Mae un o gyfyngiadau'r fethodoleg a'r data sydd ar gael yn y cyfnod hwn yn gysylltiedig â gwahanol gamau datblygiad prosiectau TAD. Mae'r fethodoleg wedi defnyddio dulliau eithaf unffurf (er bod cwestiynau wedi'u teilwra i adlewyrchu amgylchiadau gwahanol y prosiectau) tra bo prosiectau wedi cyrraedd camau datblygu tra gwahanol yn ystod y cyfnod interim hwn. O ganlyniad, mae'r data yn tynnu ar farn a phrofiadau rhai buddiolwyr ar y cyd sydd wedi cwblhau ac sy'n weithredol tra bod eraill yn dal i fod ar gamau cynnar iawn y broses adeiladu. O ganlyniad, mae data allbwn cyfyngedig ar gael i'w ddefnyddio yn ystod y cam interim hwn. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiadau allweddol cynrychiolwyr prosiect o'r gweithrediad, cynnydd eu prosiectau a phwyntiau dysgu a nodwyd mewn perthynas â chynlluniau gwaith parhaus.
- 1.17 Gan edrych ymlaen at dasgau wrth baratoi ar gyfer cam terfynol yr astudiaeth, bydd y tîm gwerthuso yn gweithio gyda'r grŵp llywio gwerthuso i sicrhau bod fframwaith traweffaith cadarn (a threfniadau monitro a gwerthuso cysylltiedig) ar waith er mwyn sicrhau bod modd dangos tystiolaeth o ganlyniadau disgwylidiedig TAD. Bydd y tîm yn cynghori buddiolwyr ar y cyd ar yr offer neu'r dulliau casglu data y gellid eu defnyddio i lenwi bylchau yn y data cyn y don derfynol o waith maes yn 2020. Yn eu tro, bydd ymweliadau gwerthuso terfynol yn cael eu cynnal yn 2020 i adolygu cynnydd a chanlyniadau'r prosiectau. Bydd y data a gesglir yn cael ei ddadansoddi a'i gyflwyno mewn adroddiad gwerthuso drafft yn Ionawr 2021 (i'w gwblhau erbyn Mawrth 2021).

Strwythur yr adroddiad interim hwn

- 1.18 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:
- Cefndir a chyd-destun y gweithrediad
 - Prosesau casglu data ar lefel gweithredu a phrosiect
 - Canfyddiadau gwerthuso interim
 - Integreiddio themâu trawsbynciol a'r iaith Gymraeg yng ngweithrediad
 - Marchnata
 - Casgliadau ac argymhellion interim

2. Cefndir a chyd-destun y gweithrediad

- 2.1 Mae rhaglen ERDF 2014-2020 yn canolbwyntio ar gefnogi buddsoddiadau sy'n cyfrannu at greu swyddi cynaliadwy a thwf economaidd. Cynlluniwyd gweithrediad Cyrchfannau Denu Twristiaeth i gefnogi amcanion yr ERDF o dan Flaenoriaeth 4.4: cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol. Amcan TAD yw darparu buddsoddiad economaidd arwyddocaol mewn asedau twristiaeth allweddol a fydd yn denu rhagor o fuddsoddiad a thwf busnes er mwyn cyflawni canlyniadau allweddol o ran cyflogaeth ac adfywio.
- 2.2 Ers i Gymru ddod yn gymwys am y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd gyntaf yn 2000, mae Croeso Cymru a'r cyrff a'i rhagflaenodd wedi arwain cyfres o raglenni strategol a gyllidir gan yr UE i helpu i ganolbwyntio buddsoddiad cyfalaf i ddatblygu ansawdd, cynnyrch a chyrchfannau twristiaeth i gefnogi amcanion economaidd, adfywio ac amgylcheddol ehangach Cymru. Gellir dadlau mai TAD yw'r mwyaf uchelgeisiol o'r cynlluniau hyn o ran ei faint a'i nodau, gyda'i bwyslais ar gefnogi cyrchfannau eiconig sy'n medru trawsnewid economi ymwelwyr Cymru a sicrhau cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r prosiectau a ariannwyd.

Rheoli a gweithredu TAD

- 2.3 Mae sawl 'haen' i'r drefniadau rheoli a gweithredu TAD. WEFO yw'r awdurdod rheoli ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am oruchwylio a monitro rhaglenni, gan gynnwys rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae Croeso Cymru, is-adran o fewn Adran Sgiliau ac Adnoddau Naturiol yn Llywodraeth Cymru, yw'r buddiolwr arweiniol ac mae'n gyfrifol am weinyddu a rheoli TAD ar lefel weithredol. Mae 13 o fuddiolwyr ar y cyd yn derbyn symiau amrywiol o gyllid trwy'r gweithrediad i gefnogi eu prosiectau. Yn eu tro, Mae pob buddiolwr ar y cyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r prosiectau, gyda buddiolwyr partner dynodedig mewn rhai achosion yn arwain ar elfennau penodol o brosiectau. Felly, mae sawl haen i'r gweithrediad, gyda chydberthnasau a chydweithio yn allweddol i'w gyflawni'n effeithiol.

Gweithrediad TAD a'i rôl wrth gefnogi rhaglen ERDF 2014-2020

- 2.4 Dim ond ar safleoedd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, fel y'u diffinnir yn y rhaglen weithredol, y targedir gweithgarwch.⁸ Y dangosydd canlyniad cysylltiedig ar gyfer Amcan Penodol 4.4 yw lleihau nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau mewn ardaloedd teithio i'r gwaith ac mae'n cynnwys targed i ostwng nifer yr hawlwr o 8 y cant ar gyfartaledd. Mae dangosyddion allbwn penodol wedi'u gosod ar gyfer Amcan 4.4, gyda thargedau i gyd-fynd â gweithrediad TAD i'w cyrraedd erbyn 2023. Nodir y rhain yn Nhabl 2.1. Mae prosiectau TAD wedi gosod targedau ychwanegol i gynyddu niferoedd yr ymwelwyr i'w safleoedd. Ar draws pob safle TAD ceir targed cyfunol i gynyddu nifer yr ymwelwyr gan 410,839, fodd bynnag nid yw hwn yn ddangosydd sy'n ofynnol gan WEFO. Mae dangosyddion WEFO yn adlewyrchu ei rôl o ran sicrhau bod cronfeydd yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at amcanion rhaglenni ERDF. Blaenoriaethau Croeso Cymru yw cefnogi a hyrwyddo'r sector twristiaeth, cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwella profiadau ymwelwyr.

Tabl 2.1 Dangosyddion a thargedau WEFO ar gyfer Blaenoriaeth 4.4 a thargedau ategol ar gyfer gweithrediad TAD

Dangosydd	Uned Mesur	Gwerth targed – Blaenoriaeth 4.4 (2023)	Gweithrediad TAD
Tir a ddatblygwyd	Ha	50	27.81
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	m ²	56,430	33,226
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	Nifer	1,770	357.5
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	Nifer	235	57

⁸ [Rhaglenni Gweithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2014-2020](#)

Strategaeth dwristiaeth genedlaethol gyfredol: *Partneriaeth ar gyfer Twf*

- 2.5 Mae strategaeth dwristiaeth gyfredol Cymru, *Partneriaeth ar gyfer Twf* (P4G)⁹, yn cwmpasu'r cyfnod o 2013-2020. Diffiniodd y strategaeth gyfres o flaenoriaethau ar gyfer y sector twristiaeth, gan roi pwyslais ar weithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y sector preifat a rhanddeiliaid eraill. Mae'r strategaeth yn cydnabod y dylanwadau mewnol ac allanol amrywiol sy'n effeithio ar y sector twristiaeth ac yn gwahodd '*y diwydiant a chyrff sector cyhoeddus lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, i ymgysylltu â'r amcanion hyn a chydweithio i'w cyflawni*'. Mae nifer o flaenoriaethau strategol *Partneriaeth ar gyfer twf* yn gyson ag amcanion gwaelodol gweithrediad TAD, gan gynnwys:
- Hyrwyddo Cymru fel cyrchfan drwy sicrhau cynnig twristiaeth o safon uchel;
 - Gweithio i ymestyn y tymor twristiaeth a'r manteision cysylltiedig;
 - Nodi cyfleoedd ariannu i wella'r seilwaith a'r cynnyrch ymwelwyr yng Nghymru.
- 2.6 Un o ganlyniadau allweddol P4G fu'r gwaith gan Croeso Cymru/Llywodraeth Cymru i ddatblygu brand newydd i dwristiaeth yng Nghymru sef '*Dyma Gymru/Gwlad Gwlad*'. Rhaid i bob prosiect twristiaeth a gefnogir gan Croeso Cymru allu dangos ei fod yn cydymffurfio ac yn cydategu o ran amcanion y brand:
- Codi ein statws
 - Synnu ac ysbrydoli
 - Newid canfyddiadau
 - Gwneud pethau da
 - Fod yn nodedig Gymreig
- 2.7 I atgyfnerthu'r datblygiad brand hwn, mae Croeso Cymru wedi rhoi arweiniad â ffocws ar gyfer marchnata a datblygu cynnyrch o dan themâu 'Blwyddyn...Antur, Chwedlau, y Môr, Darganfod ayyb' ynghyd â thwristiaeth sy'n seiliedig ar lwybrau (Ffordd Cymru). Mae'r olaf wedi'i anelu'n arbennig at ymwelwyr tramor ar eu hymweliad cyntaf i Gymru, gyda golwg ar hyrwyddo teithlenni ac annog amserau aros hirach.

⁹ [Partneriaeth ar gyfer Twf, Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020](#)

- 2.8 Wrth ddyfeisio gweithrediad TAD, mae Croeso Cymru wedi bod yn glir iawn ei fod ar frig 'pyramid' o fecanweithiau cyllido gyda'r nod o wella'r profiad cyffredinol i ymwelwyr yng Nghymru. Mae'r mecanweithiau ariannu eraill hyn oll yn rhannu'r un hanfodion brand i gefnogi nodau strategol P4G ac maent yn cynnwys:
- Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru – cyllid (grant/benthyciad) hyd at £5m
 - Cronfa Busnesau Micro a Bychan – hyd at £ 500k (wedi'i gefnogi drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig)
 - Cronfa Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIF) - gwelliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus (Cefnogir drwy Gynllun Datblygu Gwledig yr UE)
 - Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) – cronfa refeniw (datblygu cynnyrch newydd)
 - Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol - cronfa refeniw (gweithgareddau cyrchfannau)
 - Cronfa i gefnogi busnesau a sefydliadau sy'n gweithredu yn yr economi sylfaenol. Mae twristiaeth yn un o saith sector sylfaenol a gall busnesau gael mynediad at gymorth drwy'r Gronfa Her Economi Sylfaenol sydd â'r nod o gefnogi prosiectau arbrofol yn y sectorau hyn.
- 2.9 Mae'n bwysig cydnabod, felly, bod TAD yn un elfen (bwysig) mewn cyfres o fentrau a chronfeydd sydd ar y cyd yn cyfrannu at weledigaeth gyffredin ar gyfer y sector yng Nghymru, fel y nodir yn strategaeth *Partneriaeth ar gyfer Twf*. Roedd y targedau gwreiddiol a osodwyd ar gyfer *Partneriaeth ar gyfer Twf* fel a ganlyn:
- Twf o 10 y cant mewn termau real yng ngwerth refeniw twristiaeth (= 29 y cant yn nhermau arian parod)
 - Twf mewn cyflogaeth yn y sector twristiaeth o 88,300 i 97,130 call
 - Cyfraniad twristiaeth i GYC o 4.4 y cant i 4.8 y cant

- 2.10 Cadarnhaodd adolygiad cynnydd strategaeth *Partneriaeth ar gyfer Twf* 2016 fod y sector ar y trywydd iawn i ragori ar y targedau hyn gyda chyflogaeth eisoes yn 132,400 a GYC yn 6 y cant.¹⁰ Cafodd y targed twf refeniw ei ail-lunio'n er mwyn cyfeirio at ymwelwyr a oedd yn aros ac roedd ar y trywydd iawn hefyd i ragori'n sylweddol ar y targed. Mae dadansoddiad a gwblhawyd gan Croeso Cymru, yn seiliedig ar Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS), yr arolwg teithwyr rhyngwladol (IPS) ac arolwg ymwelwyr dydd Cymru (WDVS), cyn ymgynghori ar gynllun gweithredu twristiaeth newydd ar gyfer 2020 ymlaen yn dangos twf yng ngwerth cyffredinol twristiaeth o £4.5 biliwn i £6.3 biliwn neu 40 y cant mewn termau arian parod.

Heriau i dwristiaeth yng Nghymru

- 2.11 Yn ddiweddar mae Croeso Cymru wedi cychwyn ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu tymor canolig newydd i ddilyn *Partneriaeth ar gyfer Twf*. Fel cyflwyniad i broses ymgynghori eang ar y cynllun gweithredu newydd hwn, nododd Croeso Cymru yr heriau a'r rhwystrau i dwf sy'n dal i fod ar gyfer y sector twristiaeth yng Nghymru, yn enwedig o gymharu â chyrchfannau cymharol allweddol.
- 2.12 **Ymwelwyr y dyfodol** – dod o hyd i farchnadoedd newydd i ategu ymweliadau gan gyplau a theuluoedd sy'n ffyddlon ond sydd yn gwario'n gymharol isel a gyrru busnes newydd y tu allan i'r cyfnodau gwyliau traddodiadol i dorri effeithiau natur dymhorol ar gynaliadwyedd, ansawdd cyflogaeth ac ail-fuddsoddi. Mae canlyniadau'r GBTS ar gyfer 2018 yn dangos bod natur dymhorol yn parhau i fod yn ffactor cyson, gyda 67 y cant o refeniw ac ymweliadau'n cael eu creu yn chwarteri 2 a 3 (mae hyn dros 70 y cant yng nghanolbarth, gogledd a de orllewin Cymru). Nid yw'r gwerthoedd hyn wedi newid dros y degawd diwethaf. Mae effeithiau Brexit ar farchnadoedd y DU a thramor yn parhau i fod yn ffactor sylweddol.
- 2.13 **Ymwelwyr rhyngwladol** – ar hyn o bryd mae Cymru'n denu 1 miliwn o ymwelwyr o dramor bob blwyddyn, sy'n gwario mwy ac yn gwerthfawrogi nodweddion diwylliannol unigryw; fodd bynnag mae Cymru yn tangyflawni o'i chymharu â gweddill Prydain Fawr, er gwaethaf yr arlwy ddiwylliannol unigryw. Mae gan Gymru 4.8 y cant o boblogaeth y DU. Er bod twristiaeth, yn gyffredinol, yn fwy pwysig y

¹⁰ [Partneriaeth ar gyfer Twf Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013 i 2020: Adolygiad o Gynnydd y Strategaeth](#)

pen i Gymru na gwledydd eraill y DU, dim ond 2.5 y cant o ymweliadau rhyngwladol y DU a 1.5 y cant o'r gwerth sy'n cael eu derbyn. Mae gofynion sylweddol o ran hyfforddi'r gweithlu, cynnyrch ac ansawdd er mwyn sefydlu'r sgiliau a'r gallu i wella perfformiad Cymru o'i gymharu â gweddill y DU o ran ymwelwyr rhyngwladol.

- 2.14 **Bodloni disgwyliadau ymwelwyr** – yn seiliedig ar Arolwg Ymwelwyr Cymru, mae lefelau boddhad yn uchel (9.2/10) ond mae angen i ansawdd, amrywiaeth a chynaliadwyedd profiad yr ymwelydd fodloni disgwyliadau cynyddol y rhai nad ydynt wedi'u hymrwymo i Gymru hyd yma.
- 2.15 **Ffocws** – mae adnoddau, cyhoeddus a phreifat, yn gyfyngedig, felly efallai y bydd angen i Gymru 'wneud llai o bethau'n well'. Roedd ymchwil defnyddwyr blaenorol gan Croeso Cymru yn nodi bod rhai yn dal i ystyried bod Cymru yn gyrchfan 'rhywbeth i bawb', heb fod yn rhagori mewn unrhyw faes penodol. Dyma'r rhesymeg dros y datblygiad gofodol a chynnyrch penodol a welir drwy flynyddoedd thematig (e.e. Blwyddyn Antur, Blwyddyn y Môr, Blwyddyn y Chwedlau) a'r dulliau 'Ffordd Cymru'.
- 2.16 **Budd cymunedol** - ni all twristiaeth ddisgwyl cael cymorth diamod oni bai ei bod yn gallu dangos yn glir y cyfraniad cadarnhaol y mae'n ei wneud i les, cydlyniant a diwylliant y gymuned.
- 2.17 **Partneriaeth** – amcangyfrifir bod 10,500 o fusnesau yn ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaeth yng Nghymru; mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn fach ac yn ficrofusnesau ynghyd â llawer o sefydliadau ac asiantaethau yn y sector cyhoeddus sydd â dylanwad sylweddol. Mae angen gwneud mwy o gynnydd o ran cydweithio effeithiol ar lefel gymunedol, cyrchfan a chenedlaethol i sicrhau'r traweffeithiau gorau.
- 2.18 **Digidol** – Mae'r modd y mae ymwelwyr yn cyrchu, trefnu, defnyddio, cofnodi ac asesu profiadau a chyrchfannau yn symud yn gynyddol i mewn i'r maes digidol. Nid yw Cymru fel cyrchfan eto yn gwneud y defnydd gorau o'r technolegau sydd ar gael i ddysgu mwy am ymwelwyr a rheoli cyrchfannau.
- 2.19 **Ansawdd** – mae gan Gymru'r deunyddiau crai ar gyfer twristiaeth lwyddiannus – y dirwedd, pobl a diwylliant – ond mae gan lawer o gyrchfannau nodweddion tebyg. Mae ansawdd y croeso, y gwasanaeth a'r profiad yn benderfynyddion hanfodol ac yn medru gwahaniaethu Cymru o gyrchfannau eraill.

- 2.20 **Cyfathrebu a mynediad** – dylai cyrraedd Cymru mewn ffyrdd cyflym, hawdd, cynaliadwy ac iach fod yn safonol, ond sut y gall twristiaeth arwain a dylanwadu ar y penderfyniadau ynghylch isadeiledd sy'n caniatáu hyn?
- 2.21 **Cynaliadwyedd** – nid yw Cymru'n dioddef o ordwristiaeth eto, ond erbyn hyn mae ymwelwyr yn ymwybodol iawn o nodweddion cynaliadwyedd y cyrchfannau y maent yn dewis ymweld â nhw.

Edrych i'r dyfodol: y cynllun gweithredu twristiaeth nesaf

- 2.22 Dim ond yn ddiweddar y mae ymgynghoriadau rhanddeiliaid wedi gorffen, felly mae'n rhy gynnar i ddyfalu beth fydd yn y cynllun twristiaeth tymor canolig nesaf i Gymru. Fodd bynnag, gellir tybio'n ddiogel y bydd angen i dwristiaeth, i'r graddau y caiff ei harwain gan Croeso Cymru, gyda chymorth gan adrannau eraill o'r Llywodraeth, sefydliadau ac asiantaethau, gan gynnwys llywodraeth leol ar lefel cyrchfan, gydnabod y cyfleoedd a'r cyfrifoldebau sy'n gynhenid yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (2015). Yn wir, mae'n sector sydd mewn sefyllfa i wneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol ar lefel gymunedol, cyrchfan a chenedlaethol i bob un o'r saith nod llesiant.¹¹ Er i weithrediad TAD gael ei gynllunio cyn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddod i rym, mae'n sicr y byddai'n ddefnyddiol, yn enwedig wrth feddwl am wersi ar gyfer mentrau yn y dyfodol, i ystyried ymgorffori elfennau o'r fframwaith canlyniadau lles cenedlaethol fel rhan o fframwaith traweffaith ehangach a ddatblygir fel rhan o werthusiad cam olaf TAD.

Prosiectau TAD: proses ddethol a throsolwg o brosiectau

- 2.23 Roedd y broses o ddethol buddiolwyr ar y cyd ar gyfer TAD yn ddull gwahanol i'r un a gymerwyd drwy raglenni ariannu blaenorol a gefnogwyd gan ERDF, gan gynnwys Amgylchedd ar gyfer Twf (E4G). Cafodd prosiectau TAD eu nodi a'u dewis drwy ymarferiad blaenoriaethu rhanbarthol, yn cynnwys byrddau economaidd rhanbarthol a phartneriaid allweddol, a ddaeth wedyn yn gyd-fuddiolwyr. Roedd y broses yn golygu nodi a phennu rhestr fer prosiectau posibl ar lefel ranbarthol, gyda'r byrddau economaidd rhanbarthol yn cymryd rhan yn y broses hon, mewn

¹¹ Cymru lewyrchus; Cymru wydn; Cymru iachach; Cymru fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

trafodaeth â Croeso Cymru. Mae hyn yn wahanol i'r dull a gymerwyd o dan E4G, a oedd yn cynnwys prosesau tendro fel ffordd o ddewis prosiectau.

- 2.24 Cafodd prosiectau eu hadnabod cyn i gyllid y gweithrediad gael ei gadarnhau, a oedd hefyd yn wahanol i'r ffordd yr oedd rhaglenni blaenorol wedi'u cynllunio. Roedd consensws ymysg rhanddeiliaid bod y dull hwn yn bwysig (ac yn 'unigryw') fel ffordd o sicrhau cefnogaeth a pherchnogaeth ar y lefel ranbarthol; nodwyd bod y dull hwn o weithredu hefyd wedi helpu i sefydlu gwaith partneriaeth fel nodwedd allweddol o'r gweithrediad o'r cychwyn cyntaf.
- 2.25 Fel rhan o'r broses o lunio cynigion ar gyfer prosiectau, roedd yn ofynnol i fuddiolwyr ar y cyd gynnal arfarniadau o opsiynau, gan asesu cynigion i ddatblygu safleoedd neu atyniadau lleol yn erbyn nodau buddsoddi rhaglen ERDF. Cafodd aliniad prosiectau â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer y sector twristiaeth hefyd ei asesu yn ystod y broses hon. Mae cynllun busnes TAD yn crynhoi'r opsiynau a'r senarios a ystyriwyd gan gyd-fuddiolwyr yn ystod y broses gynllunio a dethol.
- 2.26 Mae'r 13 safle prosiect a ddewiswyd ac a gefnogwyd drwy TAD yn eang o ran eu cwmpas a'u nodau. Ceir rhestr isod o'r prosiectau a gefnogwyd a disgrifiad byr o'u ffocws. Mae wyth allan o dri ar ddeg o fuddiolwyr ar y cyd yn sefydliadau sector cyhoeddus. Mae Atodiad 2 yn darparu crynodeb un dudalen o gynnydd a statws pob prosiect. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, roedd tri phrosiect wedi cwblhau'n llawn ac mae un buddiolwr partner wedi cwblhau ail-ddatblygiad, gan adrodd ar allbynnau i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn (gweler adran 3.4, Tabl 3.1).

Tabl 2.2 Trosolwg o'r 13 prosiect TAD


Rhif yn Ffigur 2.1	Prosiect/buddiolwr ar y cyd (Lleoliad)	Crynodeb
1	Antur Cymoedd Cymru/Canolfannau Antur Rock UK Cyf (Merthyr Tudful)	Ymestyn ac ailwampio'r ganolfan ddringo antur i gynnwys llety en-suite newydd ar gyfer 100 o westeion preswyl; caffi newydd, man chwarae awyr agored a chyfleusterau ar gyfer gweithgareddau awyr agored ychwanegol. <i>Lansio: Tach 2016; Cwblhau: Mehefin 2018</i>
2	Glannau Bae Colwyn / Cyngor Sir Conwy (Promenâd Bae Colwyn)	Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar ddatblygiadau blaenorol, gan wella 1km arall o'r promenâd, gan greu lle ychwanegol ar gyfer ciosgau, parcio, gweithgarwch newydd a phwyntiau llog. <i>Lansio: Tachwedd 2016; Cwblhau: Awst 2018</i>
3	Y Ganolfan Forwrol Porthcawl/ Elusen Credu Cyf Porthcawl	Datblygu Canolfan forol a fydd yn cynnwys canolfan gwyddor a darganfod arfordirol, cyfleusterau lles, caffi/bistro dysgu, bwyty o fri a lle i gynnal digwyddiadau. <i>Lansiad: Chwef 2017; Cwblhau: Awst 2020</i>
4	Cyrchfan Glannau Porthcawl (PRIF) / Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont Porthcawl	Datblygu cyfleuster chwaraeon dŵr aml-bwrpas a chaffi yn Rest Bay; ailwampio ciosg yr Harbwr i ddarparu gwell cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr cychod; a llwybr beicio newydd yn cysylltu holl faeau Porthcawl. <i>Lansiad: Hydref 2018; Cwblhau: Mawrth 2019 (ciosg) Awst 2019 (canolfan chwaraeon dŵr)</i>
5	Glannau Caernarfon/Cyngor Gwynedd Caernarfon	Adeiladu gorsaf newydd a chyfleusterau ar gyfer rheilffordd Ucheldir Cymru, Caernarfon; ymestyn canolfan mentrau creadigol Galeri i ddarparu cyfleusterau sinema, swyddfeydd a gweithleoedd creadigol; datblygu cysylltiadau newydd i gysylltu safleoedd allweddol yng Nghaernarfon. <i>Lansio: Mawrth 2017; Cwblhau: Awst 2018 (Galeri), Ebrill 2019 (WHR), rhag 2020 (mynediad a chysylltiadau)</i>
6	Castell Caernarfon Porth y Brenin / Cadw, Llywodraeth Cymru Caernarfon	Gwell mynediad i lefelau uchaf prif fynedfa'r castell; caffi newydd a phrofiadau newydd i ymwelwyr; mwy o le adwerthu a gwelliannau i doiledau ymwelwyr. <i>Lansio: i'w gadarnhau; Cwblhau: Rhagfyr 2020</i>
7	Venue Cymru/ Cyngor Sir Conwy Llandudno	Ailgyflunio Venue Cymru gan ganiatáu gwell defnydd o'r lle ar gyfer digwyddiadau busnes a chynadleddau. <i>Lansio: Tach 2017; Cwblhau: Medi 2019</i>

8	Porth Ymwelwyr Rhyngwladol Ynys Gybi / Cyngor Sir Ynys Môn Caergybi	Arwyddion a dehongliad o'r porth fferi i ymwelwyr rhyngwladol; gwella mynediad i Eglwys Sant Cybi a'r Gaer Rufeinig; arwyddion a dehongli newydd ar gyfer teithiau hunan-dywys ar Ynys Gybi; parc carafanau newydd ym Mharc Breakwater, Caergybi. <i>Lansio: Mawrth 2018; Cwblhau: Rhagfyr 2020</i>
9	Canolfan Ddiwylliannol Cyflymder Tir Pentywyn a Chyrchfan Eco / Cyngor Sir Gaerfyrddin Pentywyn	Amgueddfa Cyflymder Tir Newydd; hostel eco newydd 42 gwely; a'r seilwaith newydd ar gyfer parcio a digwyddiadau. <i>Lansiad: Chwef 2018; Cwblhau: Awst 2020</i>
10	Parc a Chanolfan Gweithgareddau Llys y Fran/Dwr Cymru (Llys y Fran, Sir Benfro)	Adnewyddu'r ganolfan ymwelwyr; canolfan gweithgareddau awyr agored newydd a chabanau Glan y dwr; ardal sgiliau pwmp beic a llwybr beicio 10km; ac ail-dirweddu'r coetir, y dolydd a'r argae o'i hamgylch. <i>Lansiad: hyd 2018; Cwblhau: Awst 2020</i>
11	Canolfan arfordir rhyngwladol Cymru/Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot Saundersfoot	Sy'n cynnwys y pedwar datblygiad cysylltiedig canlynol: Canolfan Rhagoriaeth forol a Chanolfan stormydd arfordirol; & Canolfan Gelfyddydau'r Ocean Square; Canolfan sgïo arfordirol; a'r dec digwyddiadau cenedlaethol. <i>Lansio: Tach 2018; Cwblhau: Medi 2020</i>
12	Cymru i'r Byd/Rheilffordd Cwm Rheidol Cyf (Cwm Rheidol, Aberystwyth)	Troi'r sied injan bresennol yn atyniad newydd i ymwelwyr ac amgueddfa injan stêm; plattform newydd, swyddfa docynnau a chaffi; adleoli'r bloc toiledau a'r canopi; ac adeilad storio ar gyfer y stoc hyfforddi treftadaeth. <i>Lansiad: Hydref 2018; Cwblhau: Mehefin 2019 (gorsaf newydd) Rhagfyr 2020 (Amgueddfa ac adeilad storio)</i>
13	Triongl Antur Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu / Cyngorau Sir Torfaen & Chaerffili (Camlas Mynwy & Aberhonddu)	Canolfan ymwelwyr newydd ym Mhont-y-moel; gwella seilwaith a mynediad i rannau o'r gamlas a'r tirweddau cyfagos i hwyluso gweithgareddau cerdded, beicio a hwyllo; canolfan glampio a gweithgareddau awyr agored yng nghoedwig Cwmcarn. <i>Lansio: Gorffennaf 2018; Cwblhau: Rhagfyr 2020</i>

Ffigur 2.1 Map yn darlunio lleoliadau prosiect TAD a statws prosiectau yng Ngorffennaf 2019

Allweddol:

-  Prosiectau sydd wedi cwblhau'n llawn ac sy'n weithredol.
-  Prosiectau lle mae elfennau sylweddol yn cael eu cwblhau a'u gweithredu.
-  Prosiectau sy'n cael eu hadeiladu***



*** DS: Mae'r prosiectau a nodwyd gyda chylch Glas (prosiectau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu) yn cynnwys rhai prosiectau lle mae pecynnau gwaith penodol wedi'u cwblhau. Mae hyn yn cynnwys y 'dec' digwyddiadau cenedlaethol yn Harbwr Saundersfoot (11); Cwm Rheidol (12) lle mae'r platfform, y toiled a'r caffi newydd wedi'u cwblhau; a phodiau glampio a chanolfan antur Cwmcarn fel rhan o driongl antur camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu (13).

3. Prosesau casglu data ar lefel y gweithrediad a phrosiect

Trefniadau monitro y gweithrediad

- 3.1 Mae trefniadau monitro TAD wedi'u harwain gan dîm gweithrediad TAD Croeso Cymru, a oruchwylir gan Reolwr y Rhaglen. Mae'n rhaid i brosiectau a ariannwyd ddarparu ffurflenni hawlio chwarterol, ynghyd ag adroddiadau cynnydd. Mae angen i brosiectau ddarparu adroddiadau cynnydd, sy'n rhan hanfodol o gofnodi a rheoli risgiau yn ystod y broses o gyflwyno'r cynllun, cyn i'r taliadau gael eu hawdurdodi gan WEFO.
- 3.2 Yn ogystal â cheisiadau ariannol chwarterol, mae'r wybodaeth ganlynol yn ofynnol fel rhan o adroddiadau cynnydd chwarterol:
- Diweddariad ar gynnydd a chyflawniadau yn y cyfnod perthnasol;
 - Gwariant ac amrywiant yn y proffil gweithredu;
 - Blaengynlluniau dros y cyfnod nesaf;
 - Y cynnydd a wnaed mewn perthynas â themâu trawsbynciol;
 - Materion yn ymwneud â data monitro a gweithgarwch gwerthuso cynlluniedig;
 - Cyhoeddusrwydd;
 - Gweithgaredd caffael a gynhaliwyd;
 - Cynnydd yn erbyn cerrig milltir neu amodau sy'n berthnasol i'r gweithrediad;
 - Taliadau a dderbyniwyd;
 - Cofrestr risg wedi'i diweddarau;
 - Monitro a gwerthuso.
- 3.3 Mae dyddiadau cyflwyno ffurflenni chwarterol gan brosiectau wedi'u gwasgaru ar draws y flwyddyn er mwyn sicrhau nad yw Croeso Cymru yn derbyn ffurflenni ac adroddiadau cynnydd gan yr holl fuddiolwyr ar y cyd yn ystod yr un mis. Y rhesymeg dros hyn oedd lledaenu gweithgarwch monitro (ac ymgysylltu cysylltiedig â buddiolwyr ar y cyd) yn fwy cyfartal ar draws y flwyddyn galendr, gan helpu i sicrhau llwyth gwaith mwy gwastad i'r tîm gweithredol cymharol fach yn Croeso Cymru. Ym marn cyd-fuddiolwyr a rhanddeiliaid a gyfwelwyd, mae hyn yn ffordd gall o weithredu.

Data ar wariant gweithrediad TAD

- 3.4 Mae Tabl 3.1 yn cyflwyno cyfanswm costau gweithrediad TAD fesul prosiect unigol. Mae hefyd yn rhoi manylion cyfanswm yr arian ERDF a ddyfarnwyd i bob prosiect (ac a hawliwyd hyd yma, ffigurau a luniwyd ym mis Mai 2019) a chyfanswm y cyllid cyfatebol wedi'i dargedu (TMF) a ddyfarnwyd (ynghyd â ffigurau hawlio cronol). Cyfanswm gweithrediad TAD yw £62.2m, gyda £27.7m o'r swm yn gyllid a ddyfernir o rhaglen ERDF a £9.7m ychwanegol yn gyllid TMF. (Llwyddwyd i sicrhau £24m arall o gyllid i gefnogi'r gweithrediad drwy amrywiaeth o ffynonellau. Cyflwynir y rhain isod yn adran 3.5). Erbyn mis Mai 2019, gwnaed hawliadau o £9.9m mewn perthynas ag arian ERDF, sy'n cyfateb i dros 35 y cant o'r cyfanswm ar gyfer y gweithrediad. Roedd cyfran uwch o TMF wedi cael ei hawlio erbyn yr un dyddiad: cafodd £7.7m o arian TMF ei hawlio erbyn Mai 2019, sy'n cyfateb i ychydig o dan 80 y cant o'r cyfanswm.

Tabl 3.1 Data ar wariant gweithrediad TAD hyd yma fesul prosiect a chyfansymiau

Prosiect	Cyfanswm costau'r prosiect	Cyfanswm a ddyfernir gan ERDF	Cyfanswm cronnoł ERDF a hawliwyd	Cyfanswm TMF a ddyfernir	Cyfanswm cronnoł TMF a hawliwyd
Antur Cymoedd Cymru	£4,738,288	£2,543,000	£2,542,990	£65,180	£65,180
Glannau Bae Colwyn	£3,833,709	£1,513,072	£1,399,612	£1,049,558	£1,049,558
Canolfan Forwrol Porthcawl	£5,571,400	£2,134,060	£539,157	£600,000	£600,000
Glannau Porthcawl (PRIF)	£2,555,001	£1,565,941	£650,850	£71,000	£69,714
Glannau Caernarfon	£6,670,521	£2,454,243	£2,382,294	£669,500	£635,465
Castell Caernarfon	£3,130,697	£1,040,751	£0	£0	£0
Venue Cymru	£2,791,642	£832,262	£423,126	£629,442	£629,442
Ynys Gybi	£2,898,280	£1,716,000	£0	£600,000	£323,308
Cyrchfan Pentywyn	£7,027,875	£3,000,000	£26,773	£1,500,000	£868,909
Llys y Fran	£2,830,000	£1,700,000	£0	£0	£0
Canolfan Arfordir Rhyngwladol Cymru	£9,000,928	£4,000,000	£1,620,120	£952,916	£952,442
Rheilffordd Cwm Rheidol	£2,481,502	£1,612,946	£336,301	£256,154	£256,154
Triongl Antur	£4,674,779	£2,000,000	£0	£1,456,100	£279,928
Marchnata Croeso Cymru	£4,000,000	£1,582,727		£0	£0
Cyfansymiau ERDF	£62,204,622	£27,695,002	£9,921,223	£7,849,850	£5,730,100

Ffrydiau cyllid eraill TAD

- 3.5 Yn ogystal â chronfeydd ERDF a TMF, mae prosiectau TAD wedi sicrhau cyllid drwy amrywiaeth o ffynonellau eraill, gwerth dros £24m. Gan ddefnyddio gwybodaeth a nodir yng nghynlluniau busnes y prosiectau, mae'r cyllid hwn wedi'i gategoreiddio er mwyn darparu dealltwriaeth o'r ffynhonnell ychwanegol o gyllid sy'n cael ei defnyddio i gefnogi prosiectau TAD. Mae'r arian hwn yn cynnwys arian sector cyhoeddus yn bennaf drwy fecanweithiau cyllido amrywiol. Mae cyfraniadau awdurdodau lleol, gan gynnwys benthyciadau, yn dod i gyfanswm o dros £7 miliwn. Mae cyd-fuddiolwyr a buddiolwyr partner yn gyfrifol am £5m pellach sydd hefyd yn

cynnwys cyfraniadau gan awdurdodau lleol ac adran o Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru a rhaglenni ariannu eraill, gan gynnwys Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid¹², y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)¹³ a'r Gronfa Cymunedau Arfordirol¹⁴, wedi'u defnyddio i gefnogi prosiectau. Mae cyfanswm o £2.7m mewn benthyciadau banc yn cefnogi gweithrediad TAD. Mae ein dadansoddiad o gynlluniau busnes a gyflwynwyd gan fuddiolwyr ar y cyd yn datgelu diffyg buddsoddiad sector preifat mewn prosiectau TAD.

Tabl 3.2 Ffynonellau cyllid ychwanegol ar gyfer gweithrediad TAD

Ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau TAD (yn ychwanegol at ERDF a TMF)	Gwerth (ar draws pob prosiect)
Cyfraniadau awdurdodau lleol	£7,221,785.00
Cyfraniadau buddiolwyr/partner ar y cyd	£5,103,435.00
Rhaglenni cyllid Llywodraeth Cymru	£4,459,572.00
Benthyciadau banc	£2,713,877.00
Corff arall yn y sector cyhoeddus	£1,500,000.00
Trosglwyddo asedau cyfalaf	£1,360,000.00
Cronfeydd a sefydliadau cymunedol	£1,051,135.00
Arian loteri	£905,000.00
Cyfraniad y trydydd sector	£137,340.00
Cyfanswm	£24,452,144.00

Ffynhonnell: Cynlluniau busnes prosiectau TAD.

¹² [Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid](#)

¹³ [Nodyn cyfarwyddyd y Cynllun Cefnogi Buddsoddiad Twristiaeth \(TISS\)](#)

¹⁴ [Cronfa Cymunedau Arfordirol](#)

Cynnydd yn erbyn dangosyddion lefel gweithredu

- 3.6 Isod rydym yn cyflwyno data cyfanredol gan brosiectau sydd wedi cwblhau mewn perthynas â phedwar dangosydd WEFO. Ni osodwyd targedau ar gyfer cyfnod interim hwn y gweithrediad. Dylid nodi bod y ffigurau hyn yn deillio o ddata o dri phrosiect yn unig ac o'r herwydd, ychydig iawn o gasgliadau y gellir eu llunio yn seiliedig ar y data. Mae'r prosiectau hynny sydd wedi'u cwblhau wedi cyflawni – ac mewn rhai achosion wedi rhagori ar – eu targedau lefel prosiect, sy'n galonogol. Fodd bynnag, mae nifer y prosiectau sydd wedi cwblhau yn fach a rhaid aros i weld a fydd prosiectau eraill yn cyflawni yn erbyn eu targedau. Ar ben hynny, gall y darlun ar ddiwedd y gweithrediad gael ei gymhlethu gan y ffaith bod rhai prosiectau wedi oedi ac yn debygol o gwblhau tuag at ddiwedd cyfnod amser y gweithrediad, gan arwain o bosibl at oedi wrth gadarnhau dangosyddion terfynol WEFO. Bydd hyn yn cael ei drafod a'i gadarnhau yn ystod y cam gwerthuso terfynol.

Tabl 3.3 Dangosyddion a thargedau WEFO ar gyfer Blaenoriaeth 4.4 a thargedau cysylltiedig ar gyfer gweithrediad TAD

Dangosydd WEFO	Gwerth targed-blaenoriaeth 4.4 (2023)	Gweithrediad TAD	Cyflawniad (erbyn Gorffennaf 2019)*
Tir a ddatblygwyd	50	27.81	3.95 ha
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	56,430	33,226	4, 143m ²
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	1,770	357.5	84
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	235	57	8

Ffynhonnell: Data monitro TAD Croeso Cymru

DS Mae'r data a nodir yn y tabl hwn yn seiliedig ar ddata allbwn dros dro a ddarparwyd gan 3 phrosiect. Yn ogystal, mae data allbwn yn ddarostyngedig i welliant yn dilyn gwiriad gan Croeso Cymru.

* Yn seiliedig ar adroddiadau monitro 3 phrosiect sydd wedi'u cwblhau

† Heb gynnwys data gan un prosiect a gwblhawyd sydd wedi adrodd, hyd yma, ar 'swyddi a grëwyd' yn hytrach na 'swyddi y darparwyd ar eu cyfer', sef y dangosydd ERDF ffurfiol. Y

gwahaniaeth yw bod swyddi a grëwyd yn cyfeirio at swyddi newydd gwirioneddol a grëwyd ar y safle, yn hytrach na'r dangosydd 'swyddi y darparwyd ar eu cyfer' sef ffigur sy'n deillio o gyfrifiad o swyddi FTE fesul m² a ddatblygwyd neu a adnewyddwyd. Mae'n ofynnol i bob prosiect adrodd ar allbynnau prosiectau yn erbyn y pedwar dangosydd a restrir uchod.

Dangosydd nifer ymwelwyr Croeso Cymru

- 3.7 Dim ond un prosiect sydd wedi'i gwblhau sydd wedi darparu data ar ddangosydd ychwanegol Croeso Cymru. Nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Archwiliodd y trafodaethau â'r prosiectau eu dulliau arfaethedig o gasglu'r data hyn. Mewn rhai achosion, lle mae cyfleusterau neu safleoedd newydd yn cael eu datblygu, mae cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn glir, gan mai sero fydd y llinell sylfaen. Mae prosiectau eraill wedi codi cwestiynau ynglŷn â dulliau o adnabod ymwelwyr ychwanegol a phriodoli'r rhain i weithrediad TAD. Mewn llawer o achosion, mae angen ffurfioli'r dulliau casglu nifer ymwelwyr er mwyn i brosiectau a Croeso Cymru allu adrodd yn erbyn y targed hwn mewn ffordd gadarn.

Effeithiau a ragwelir a data llinell sylfaen cysylltiedig

Cysylltiadau rhwng effeithiau prosiect a threfniadau casglu data

- 3.8 Yn ystod ymweliadau gwerthuso interim â buddiolwyr ar y cyd, gofynnwyd i gynrychiolwyr prosiect grynhoi'r effeithiau yr oeddent yn disgwyl i'w prosiectau eu cyflawni. Cafodd trafodaethau eu llywio tuag at ddeall pa brosesau casglu data oedd ar waith i fedru arddangos a phrofi'r effeithiau hyn.
- 3.9 Trafodwyd y materion hyn yn y lle cyntaf fel cwestiynau agored er mwyn archwilio nifer o bwyntiau: i) i ba raddau yr oedd yr effeithiau a nodwyd (heb eu hysgogi) yn gyson â'r gweithrediad a'r targedau gweithredu; ii) pa effeithiau penodol i brosiectau unigol a gafodd eu cyflwyno, sydd yn gofyn prosesau casglu data penodol; iii) a oes unrhyw themâu neu linyddau cyffredin yn rhedeg drwy'r prosiectau TAD. Cyn troi at y mater o ddata llinell sylfaen, amlinellwn y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiynau hyn.

- 3.10 Yn gyntaf, mae aliniad rhwng canlyniadau disgwyliedig y prosiectau a dangosyddion WEFO, er bod y cyswllt gyda rhai dangosyddion yn gryfach nag eraill. Roedd pwyslais ar ddatblygu ac adfywio ffisegol fel canlyniad i'r prosiectau, sy'n cyd-fynd â'r dangosydd 'tir a ddatblygwyd' a'r 'safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd'. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynrychiolwyr prosiect a oedd yn cyfeirio at gynyddu cyflogaeth fel canlyniad a fwriadwyd. Roedd cydnabyddiaeth y byddai prosiectau a gwblhawyd yn llwyddiannus yn darparu cyfleoedd cyflogaeth neu'n diogelu cyflogaeth, ond ychydig iawn o fuddiolwyr ar y cyd oedd yn cyflwyno eu prosiectau fel buddsoddiadau a yrrwyd gan y nod strategol o gynyddu cyflogaeth. Mae pob prosiect, fodd bynnag, yn cydnabod bod targedau WEFO yn fesurau perfformiad cyffredinol y byddai cyflawni prosiectau craidd yn cael eu hasesu yn eu herbyn.
- 3.11 Fel y gellid disgwyl, amlinellodd buddiolwyr ar y cyd ystod o effeithiau a ragwelwyd, gan adlewyrchu natur amrywiol prosiectau TAD ac adlewyrchu hefyd lefel yr uchelgais a oedd ynghlwm wrth y gwerthusiad. Isod, ceir rhestr ddethol o'r materion a godwyd, ac mae'n bosibl categorïddio'r effeithiau hyn o dan dri phennawd sy'n gyd-gysylltiedig ac yn rhyng-ddibynnol:

Tabl 3.4 Effeithiau ehangach TAD y'u rhagwelir

Effaith ar ymwelwyr/cynnig twristiaeth (e.e...)	Effeithiau ar leoedd (e.e...)	Effeithiau ehangach ar lefel gymunedol neu economaidd (e.e...)
• Cynyddu nifer yr ymwelwyr; • Gwellu profiad yr ymwelydd; • Arallgyfeirio cynnig safle i ymwelwyr; • Gwellu hygyrchedd i ymwelwyr â safleoedd/lleoliadau; • Leihau natur dymhorol.	• Uwchraddio seilwaith ffisegol; • Cefnogi adfywio yn yr ardal leol; • Bod yn gatalydd ar gyfer datblygiadau cysylltiedig eraill.	• Sicrhau budd masnachol/cymorth buddiolwyr ar y cyd cynaliadwyedd; • Diogelu a chreu swyddi; • Cyfrannu at falchder dinesig/ymdeimlad o le; • Herio ac ail-ddiffinio canfyddiadau o safleoedd/ardaloedd lleol.

- 3.12 Mae buddiolwyr ar y cyd yn cydnabod yr angen i gasglu data sy'n benodol i'r prosiect sy'n adlewyrchu eu hamcanion eu hunain a'r canlyniadau a fwriedir. Roedd swm a lefel manylder y data sylfaenol a rannwyd gyda'r gwerthuswyr yn amrywio rhwng prosiectau. Roedd rhai'n gallu tynnu ar ddata hanesyddol gan ddatgelu tueddiadau dros amser mewn gwerthiannau tocynnau a niferoedd ymwelwyr ar safleoedd a oedd yn cael eu gwella or a uwchraddio tra roedd eraill yn gallu nodi'r math o ddata yr hoffent ei gipio neu y disgwylid iddo ei gasglu yn y dyfodol. Eglurodd ychydig o brosiectau fod eu dull monitro a gwerthuso cyffredinol ar lefel prosiect yn dal i gael ei gwblhau ac y gallai dangosyddion craidd gael eu datblygu ymhellach yn y dyfodol. (Gweler isod am sylwadau pellach ar y data sylfaenol sydd ar gael).
- 3.13 Yn drydydd, gwnaethom ystyried yr hyn a oedd yn gyffredin, os o gwbl, ar draws effeithiau disgwyliedig y prosiectau amrywiol hyn. Gan gymryd eu gair o gynllun busnes gweithredu'r TAD, mae pob prosiect yn dyheu am gael effaith drawsnewidiol ar ymwelwyr neu ar eu hardaloedd lleol. Fodd bynnag, nid yw'r dyhead hwn i sicrhau newid trawsnewidiol wedi'i ddiffinio'n glir. Un nodwedd gyson y mae cynrychiolwyr prosiectau yn dyheu amdani yw codi ansawdd eu safleoedd neu eu hatyniadau mewn ffordd amlwg – i godi'r profiad i ymwelwyr a newid canfyddiadau o'r cyrchfannau hyn. Bydd gweld newidiadau yng nghanfyddiadau ymwelwyr, ynghyd â safbwyntiau trigolion lleol a rhanddeiliaid, felly, yn allweddol i werthusiad terfynol o'r gweithrediad.

Data llinell sylfaen sydd ar gael

- 3.14 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r mathau cyffredin o ddata a gesglir ar lefel prosiect, er nad oes unrhyw brosiect unigol yn debygol o gasglu ystod mor eang o ddata fel y'i cyflwynir isod.
- 3.15 Y math mwyaf cyffredin o ddata a gesglir ar lefel prosiect yw nifer yr ymwelwyr. Mae'r math hwn o ddata ar gael mewn sawl ffurf, yn dibynnu ar natur y prosiect; er enghraifft, gwerthiant tocynnau, data archebu, cyfrif ymwelwyr ar safleoedd penodol. Mae rhai prosiectau'n casglu dadansoddiad manylach o ddata ymwelwyr nag eraill, gan gynnwys data demograffig.

- 3.16 Ynghyd â hyn, mae'n gyffredin i brosiectau gasglu data ar nifer yr ymwelwyr, yn enwedig y safleoedd hynny sy'n datblygu lleoedd cyhoeddus lle nad oes unrhyw werthiant tocynnau na giât. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cownteri ymwelwyr a osodwyd mewn lleoliadau allweddol, yn ogystal â nifer cwsmeriaid mewn lleoliadau neu adeiladau penodol (megis ymwelwyr i arddangosfa benodol, ar hyd llwybr penodol neu ymwelwyr i ddigwyddiadau penodol). Er bod rhai prosiectau eisoes yn meddu ar ryw fath o ddata ar nifer y cwsmeriaid, mae eraill yn cynllunio ar gyfer gosod cownteri yn y dyfodol er mwyn mesur niferoedd ymwelwyr i fannau newydd a adeiladwyd neu a ddatblygir drwy weithrediad TAD.
- 3.17 Roedd prosiectau hefyd yn cyfeirio at ddata llinell sylfaen yn seiliedig ar werthiant tocynnau parcio ceir, data y gellir eu defnyddio i fesur a chymharu niferoedd ymwelwyr dros amser. Lle y bo'n berthnasol, mae prosiectau hefyd yn casglu data ar wariant ymwelwyr ac elw canolfannau cost penodol. Mae'r data hwn yn amrywio yn dibynnu ar y ffrydiau incwm sydd ar gael ond fel arfer mae'n cynnwys incwm o docynnau ac archebion, gwariant mewn caffis neu fwytai ac elw i fusnesau neu denantiaid o fewn mannau prosiect. Fel y cyfryw, mae nifer fach o brosiectau yn casglu data ar y niferoedd sy'n manteisio ar fannau rhentu/iechyd busnes lleol a'u cryfder masnachol lle mae hyn yn ffocws allweddol i'r prosiect. Nid oes data llinell sylfaen o reidrwydd yn bodoli eto ar gyfer mannau rhentu neu fusnes sydd heb eu datblygu eto, ond fe'u hystyrir yn ddangosydd perfformiad allweddol wrth symud ymlaen.
- 3.18 Mewn ychydig o achosion, mae prosiectau'n pwysleisio bod nifer y swyddi a grëwyd ac a gynhelir wrth symud ymlaen yn ddata sylfaenol pwysig; gan fynd y tu hwnt i'r dangosydd ERDF o swyddi a letyir, tynnodd y prosiectau hyn sylw at y data oedd ar gael yn ymwneud â demograffig gweithwyr a'r manteision cyffredinol i'r gymuned yn deillio o gyfleoedd cyflogaeth.
- 3.19 Mae lleiafrif o'r prosiectau yn casglu rhyw fath o adborth gan ymwelwyr, naill ai drwy arolygon ymwelwyr, adborth ar-lein neu werthusiadau cynulleidfaoedd. Mae'r data hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar foddhad ymwelwyr. Mae amllder a lefel manylder y data hwn yn amrywio rhwng prosiectau. O ystyried y pwyslais ar gipio canfyddiadau ymwelwyr o safleoedd, mae dadl i'w gwneud i sicrhau bod pob safle yn casglu data perthnasol gan ddefnyddio dull mwy safonedig.

- 3.20 Pwysleisiodd lleiafrif o'r prosiectau, gan fod eu prosiect yn elfen o weithgareddau adfywio a thwristiaeth ehangach o fewn y rhanbarth, fod y prif ddangosyddion perfformiad awdurdod lleol neu ranbarthol yn fesurau perfformiad pwysig ar gyfer eu prosiect TAD. Er bod llawer o strategaethau, gweithgareddau a phrosiectau eraill yn cyfrannu at y dangosyddion perfformiad allweddol hyn, fe'u hystyrir yn fesur perfformiad canolog o drawsnewid cyffredinol yr ardal leol.
- 3.21 Mae cwpl o brosiectau'n casglu data telemetrig (drwy gysylltiadau wi-fi) y gellir eu ddefnyddio i gasglu tystiolaeth ar y llwybrau y mae ymwelwyr yn defnyddio wrth symud drwy ofodau, yn ogystal â pheth gwybodaeth yn ymwneud â'u demograffeg. Mewn un achos, mae data telemetrig ond yn dechrau cael eu casglu ar hyn o bryd.
- 3.22 Ynghyd â hyn, pwysleisiodd nifer o brosiectau hefyd eu bod yn awyddus i archwilio a chasglu tystiolaeth fwy meddal o gynnydd neu effaith, megis gwelliannau canfyddedig yn ansawdd y cynnig twristiaeth, gwell mynediad at leoedd, er nad oedd mesurau manwl gywir a phrosesau casglu data ar waith eto.
- 3.23 Roedd lleiafrif o'r prosiectau hefyd yn cyfeirio at ddata sylfaenol arall a oedd ar gael yn ymwneud yn benodol â'u math o weithgareddau, gan gynnwys cymorth rhodd, tanysgrifiadau i gylchlythyrau ac asesiad llinell sylfaen o effaith economaidd a oedd yn bodoli eisoes.

Arsylwadau a materion i'w hystyried mewn perthynas â data llinell sylfaen

- 3.24 Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan fuddiolwyr ar y cyd, ymddengys fod heriau o ran sefydlu llinell sylfaen gadarn ar lefel prosiect unigol er mwyn mesur cynnydd a chanlyniadau, yn enwedig canlyniadau ehangach ar lefel prosiect. Mewn rhai achosion nododd prosiectau mai cymharol ychydig o systemau casglu data a oedd ar waith ac nad oedd llawer o ddata hanesyddol i'w feincodi. Ar gyfer prosiectau eraill a oedd yn ddatblygiadau newydd, awgrymwyd ei bod yn rhy gynnar i sefydlu llinell sylfaen. Yn wir, nododd rhai prosiectau na fyddai'n realistig sefydlu llinell sylfaen nes iddynt agosáu at gwblhau ar ddiwedd 2020.
- 3.25 Roedd rhai cynrychiolwyr prosiect yn teimlo bod sefydlu 'linell sylfaen glir ar gyfer prosiect TAD' a phriodoli effeithiau i gyllid TAD yn broblematic: nododd y rhain fod cyllid TAD yn ffurfio rhan o raglen adfywio ehangach a bod angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddefnyddio data o gownteri cwsmeriaid, gwerthiannau tocynnau

maes parcio a ffynonellau eraill gan nad yw cynnydd yn cael ei briodoli'n uniongyrchol neu'n llwyr i gyllid TAD.

- 3.26 Roedd y prosiectau'n nodi bod heriau o ran casglu adborth gan ymwelwyr, gan egluro bod cyfyngiadau amser a blaenoriaethau eraill wedi bod yn ffactor. Hefyd, ychydig iawn o brosiectau oedd â chynlluniau ar waith i gasglu data i gofnodi effeithiau economaidd neu gymunedol ehangach, gan gynnwys effeithiau ar ganfyddiadau pobl leol o'r safleoedd sy'n cael eu datblygu neu ar les.
- 3.27 Mae data sylfaenol yn dameidiog felly ac mae prosesau ar gyfer casglu data i ddangos bod yr ystod o effeithiau a ragwelir a nodir yn adran 3.11 mewn llawer o achosion wedi'u tan-ddatblygu. Nid yw'r prosesau casglu data cadarn i gasglu a deall graddau'r newidiadau hyn yn cyd-fynd â dyheadau'r prosiectau i gyflawni newid trawsnewidiol (yr ydym yn eu hystyried yn y bennod ganlynol).

4. Canfyddiadau gwerthuso interim

4.1 Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn ystyried y canlynol:

- Newid trawsnewidiol
- Ffit strategol y gwaith, gan gynnwys yng nghyd-destun rhaglen ERDF a blaenoriaethau strategol ehangach Llywodraeth Cymru i gefnogi'r economi ymwelwyr
- Rheolaeth weithredol o TAD gan Croeso Cymru
- Gweithredu'r TAD hyd yn hyn
- Gweithio mewn partneriaeth
- Y gwerth ychwanegol sy'n dod i'r amlwg ac effaith arian TAD (ar fuddiolwyr ar y cyd a phartneriaid ehangach)

Newid trawsnewidiol

4.2 Mae dogfennaeth rhaglen ERDF yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio adnoddau Cronfeydd Strwythurol er mwyn sicrhau effaith drawsnewidiol. Mae'r iaith hon yn treiddio drwy Cynllun Busnes TAD, a nododd:

'Mae'r gweithrediad yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu nifer cyfyngedig o safleoedd twristiaeth a flaenoriaethir yn rhanbarthol sydd â'r potensial i fod yn safleoedd eiconig, na ellir eu methu o fewn ardal y rhaglen. Ar y raddfa hon, mae gan y buddsoddiad y potensial i arwain at newid trawsnewidiol ar gyfer economi ymwelwyr Cymru.'

4.3 Roedd prosiectau unigol, yn eu tro, yn adleisio'r dyheadau hyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg o ddogfennau rhaglenni ERDF, dogfennaeth gweithredu TAD a chyfweliadau gyda buddiolwyr ar y cyd bod dehongliadau gwahanol o'r math o effeithiau trawsnewidiol y gellid eu gweld o ganlyniad i'r cyllid. Mewn rhai achosion, gellir trawsnewid adnoddau ffisegol neu isadeiledd, mewn achosion eraill ceir cyfeiriad at weddnewid profiad yr ymwelydd o safleoedd amrywiol a thrawsnewid ansawdd bywyd trigolion lleol. Mae'n bwysig ystyried y dehongliadau gwahanol hyn o 'newid trawsnewidiol' yn ystod y cam interim hwn, a'u rhannu hyd yn oed, a'u dosbarthu fel bod asesiad terfynol o effaith y gweithrediad yn cymryd y rhain i

ystyriaeth. Gan ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd hyd yma, awgrymwn y canlynol fel fframwaith eang ar gyfer archwilio'r gwahanol fathau o newid trawsnewidiol a roddir ar waith gan TAD.

Tabl 4.1. Y gwahanol lefelau o newid trawsnewidiol: fframwaith cychwynnol

Trawsnewid mewn perthynas â:	Cwestiwn creiddiol
Profiad ymwelwyr	A yw TAD wedi trawsnewid profiad ymwelwyr o ran ansawdd, dewis neu ganfyddiad cyffredinol o safleoedd a gefnogir drwy'r gwaith?
Buddiolwyr ar y cyd a buddiolwyr partner	A yw TAD wedi trawsnewid gweithgareddau, capasiti, arbenigedd, cynlluniau strategol at y dyfodol y sefydliadau?
Cynnig twristiaeth lleol/rhanbarthol	A yw prosiectau TAD, wedi trawsnewid y cynnig i ymwelwyr yn lleol neu'n rhanbarthol?
Arlwy twristiaeth cenedlaethol	I ba raddau y mae prosiectau TAD, <u>gyda'i gilydd</u> , wedi trawsnewid y cynnig i ymwelwyr ledled Cymru?

- 4.4 Ar y cam hwn o'r gwaith, ac o ystyried y cyfyngiadau yn y data sydd ar gael a amlinellir yn y bennod flaenorol, mae'n rhy gynnar o hyd i fesur effeithiau mewn perthynas â'r fframwaith rhagarweiniol hwn. Mae'n deg dweud bod llawer o brosiectau yn canolbwyntio ar weddnewid yr hyn a gynigir gan dwristiaeth leol drwy eu datblygiadau, gyda rhagdybiaeth sylfaenol y bydd y prosiectau gyda'i gilydd yn gwella canfyddiadau o'r arlwy dwristiaeth genedlaethol. Caiff y ddamcaniaeth hon, a all fod yn agored i'w chwestiynu o ystyried dosbarthiad daearyddol ac ystod gweithgarwch y prosiect, ei harchwilio yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

Cydweddu strategol

- 4.5 Mae'r gwerthusiad yn ceisio ateb nifer o gwestiynau penodol sy'n ymwneud â sicrhau bod y gwaith yn cydweddu'n strategol. Gellir ystyried y cwestiwn o ffit strategol drwy sawl 'lens'. Yn gyntaf, ceir y cwestiwn o aliniad TAD â'r rhaglen ERDF a'r amcan penodol y mae'n cael ei ariannu oddi mewn iddo; yn ail, y graddau y mae prosiectau TAD yn cydweddu'n strategol neu'n cyfateb i flaenoriaethau ehangach i ddatblygu'r economi ymwelwyr yng Nghymru a pholisïau craidd eraill Llywodraeth Cymru; ac yn drydydd, y graddau y mae'r gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau adfywio lleol neu ranbarthol eraill. Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi tystiolaeth mewn perthynas â phob un o'r tri maes hwn o aliniad strategol yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd hyd yma.

Aliniad ag ERDF ac amcan penodol 4.4

- 4.6 Mae gweithrediad TAD yn cefnogi amcanion yr ERDF o dan Flaenoriaeth 4.4, sy'n anelu at gynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith wedi'i flaenoriaethu neu ranbarthol. Mae buddsoddiad TAD mewn prosiectau seilwaith twristiaeth yn cefnogi sector blaenoriaeth o'r economi sylfaenol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae prosiectau TAD yn cyfrannu at gynyddu cyflogaeth yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy eu gweithgarwch gweithredol, drwy weithgareddau adeiladu a gefnogir a chadwyni cyflenwi.
- 4.7 Yng nghyd-destun rhaglen weithredol ehangach ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'r TAD yn cyd-fynd â'r egwyddorion dylunio craidd sydd wedi llywio'r dull o ddefnyddio'r cronfeydd strwythurol ac yn eu cynnwys. Mae'r gweithrediad yn dangos crynodiad uwch o adnoddau, gan ganolbwyntio ar wneud llai o bethau mewn llai o leoedd i gael mwy o effaith. Mae NHAD hefyd yn darparu enghreifftiau o integreiddio cyllid gyda rhaglenni buddsoddi ehangach ar draws y sector cyhoeddus. Felly, yn ystod y cam interim hwn, mae modd nodi cyfatebolrwydd ac aliniad â'r rhaglen ERDF ehangach ac amcan penodol ar gyfer ariannu'r gwaith. Mae maint cyfraniad y cynllun i'r nodau strategol i'w weld o hyd a bydd yn dibynnu ar gwblhau'r prosiectau sy'n weddill yn llwyddiannus.

Cydweddu'n strategol â blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth a Chynaliadwyedd

- 4.8 Mae'r mater o aliniad rhwng prosiectau TAD a blaenoriaethau twristiaeth ehangach Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r dull a gymerwyd wrth ddewis prosiectau (amlinellir hyn yn fanylach isod, adran 4.12). Roedd y ffordd yr oedd Croeso Cymru wedi dylunio'r meini prawf sgorio a dethol wrth ddatblygu'r gweithrediad yn sicrhau bod y prosiectau a ddewiswyd yn cyd-fynd â, ac yn cyfrannu at amcanion strategol cenedlaethol. Mae'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn fodlon ar drawstoriad y prosiectau sy'n cael eu cefnogi. Fel grŵp o brosiectau, mae ganddynt gysylltiadau clir â'r meysydd a nodir yn Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cefnogi treftadaeth a diwylliant, gweithgareddau ac antur a'r amgylchedd naturiol.
- 4.9 Ystyrir bod TAD yn ategu cynlluniau a strategaethau eraill Croeso Cymru. Nododd rhai o'r unigolion a gyfwelwyd fod y gweithrediad yn rhoi sbardun ychwanegol neu'n 'hwb terfynol' ar gyfer rhai cynlluniau tymor hwy. Mae hyn yn dangos bod ystyriaethau strategol a phragmatig y tu ôl i ddewis rhai prosiectau. Nododd rhanddeiliaid fod TAD yn ategu cynlluniau ariannu strategol eraill y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) a'r Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS).
- 4.10 Lleolir y rhan fwyaf o safleoedd TAD ar neu yn agos at Ffordd Cymru, grŵp o dri llwybr cenedlaethol sy'n arwain ymwelwyr ar hyd arfordir y gorllewin, ar draws gogledd Cymru, a thrwy gadarnleoedd mynyddig Cymru. Ceir cyfleoedd drwy weithgaredd marchnata yn y dyfodol i hyrwyddo safleoedd TAD fel rhan o hyrwyddo Ffordd Cymru yn ehangach, gan eu cysylltu ag atyniadau a thirnodau rhanbarthol eraill.
- 4.11 Yng Nghynllun Busnes y gweithrediad, aildatganodd Croeso Cymru ei ymrwymiad i gefnogi'r sector twristiaeth i dyfu mewn ffordd gynaliadwy ac i wneud '*cyfraniad cynyddol at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymunedau o fewn ardal y rhaglen*'. Roedd yn ofynnol i fuddiolwyr ar y cyd a'u partneriaid ddarparu gwybodaeth yn eu cynlluniau busnes ar sut y bydd prosiectau yn *cyfrannu'n weithredol* at y nodau datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nodwyd enghreifftiau yn ystod cyfweiliadau â chyd-fuddiolwyr ynghylch sut mae prosiectau yn cyfrannu at Gymru iachach a

mwy ffyniannus ac at gymunedau mwy cydlynus, ymhlith nodau llesiant eraill. Fodd bynnag, roedd y rhain yn enghreifftiau ansoddol ac anecdotaidd ac nid yw'n ymddangos bod cyfraniad y gweithrediad at nodau llesiant yn cael ei gipio mewn ffordd systematig, gan ddefnyddio'r dangosyddion lles sydd wedi'u datblygu. Mae hyn yn rhywbeth a gaiff ei archwilio fel rhan o'r trafodaethau ynghylch fframwaith effaith yn ystod cyfnod terfynol y gwerthusiad.

Rheoli gweithredol

- 4.12 Ar ôl nifer o iteriadau cymeradwywyd Cynllun Busnes terfynol ar gyfer TAD gan WEFO ar 15 Mawrth 2016. Roedd Croeso Cymru wedi deall yn wreiddiol y byddai un cynllun busnes manwl ar gyfer y gweithrediad cyfan yn ddigonol, ond fe'u hysbyswyd wedyn gan WEFO bod angen Cynlluniau Busnes prosiectau unigol. Dywedodd partneriaid strategol bod hyn yn achosi dyblygu ac oedi i'r broses gynllunio a chymeradwyo. O safbwynt WEFO, roedd y broses o gymeradwyo cynlluniau busnes unigol ar y cyd yn gofyn am fuddsoddi amser sylweddol, gan adlewyrchu'r ffaith bod pob Cynllun Busnes yn unigryw. Bu'n rhaid ystyried pob Cynllun Busnes ar wahân ac yn ôl ei rinweddau ei hun, gan sicrhau bod y Cynllun yn addas i'r diben ar gyfer y gweithgarwch penodol dan sylw ond ei fod hefyd yn ategu ac yn cyfrannu at weithrediad ehangach TAD.
- 4.13 Teimlid bod cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn ystod y cam Cynllunio Busnes yn effeithiol ar y cyfan. Cytunwyd o'r cychwyn cyntaf y byddai gohebiaeth gan fuddiolwyr ar y cyd yn cael ei sianelu drwy Croeso Cymru fel y buddiolwr arweiniol. Ymdriniodd Croeso Cymru ag unrhyw ymholiadau gan fuddiolwyr ar y cyd yr oeddent yn gallu eu datrys, cyn ymgynghori â swyddogion WEFO ar unrhyw faterion yr oedd angen eglurhad neu arweiniad ychwanegol arnynt. Teimlai WEFO fod hyn wedi helpu i sicrhau dull symlach, effeithlon a chyson o ddarparu canllawiau a chyngor i fuddiolwyr ar y cyd.

- 4.14 Nodwyd y bu oedi pellach i brosiectau yn dilyn datganiad gan WEFO yn ei gwneud yn ofynnol i bob prosiect gyrraedd cyfnod RIBA 3.¹⁵ Roedd hyn yn peri pryder i rai prosiectau ac nid oedd yn cyd-fynd â nifer o'r dulliau a ffefrir gan fuddiolwyr ar y cyd. Er enghraifft, datblygodd Cwm Rheidol ei brosiect yn fewnol ac nid oedd yn teimlo bod RIBA 3 yn angenrheidiol ar y pwynt yna. Teimlai arweinwyr strategol ar gyfer y gweithrediad y gallai hyn, yn y pen draw, fod wedi cyflymu'r cynnydd wrth i gostau a chynllunio prosiectau fod yn fwy cywir ac wedi'u datblygu'n well ar ôl eu cymeradwyo. Roedd Croeso Cymru yn ymwybodol o bryderon buddiolwyr ar y cyd bod gwaith dylunio cychwynnol yn cael ei wneud ar eu risg eu hunain cyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo'n ffurfiol.
- 4.15 Nododd rhai partneriaid strategol a gyfwelwyd fod nifer ac ystod y buddiolwyr ar y cyd sy'n gysylltiedig â'r TAD yn heriau i Croeso Cymru, gan gynnwys cefnogi a chyfathrebu â 13 o wahanol brosiectau a weithredir gan ystod o sefydliadau, yn datblygu ar gyflymder gwahanol a phob un â'i heriau unigryw ei hun.

Gweithredu prosiectau TAD hyd yma

- 4.16 Mae Croeso Cymru wedi mynd ati'n raddol i gymeradwyo a chyflwyno prosiectau. Mae hyn wedi sicrhau nad yw'r prosiectau hynny a oedd yn barod i symud ymlaen wedi cael eu dal yn ôl gan unrhyw oedi neu addasiadau i gynlluniau neu amserlenni prosiectau eraill. Mae cynnydd wedi bod yn amrywiol – er bod nifer fach o brosiectau wedi cwblhau ac yn weithredol, mae nifer o rai eraill wedi profi oedi am amrywiaeth o resymau technegol a gweithredol.
- 4.17 Mae sefyllfa bresennol y gweithrediad yn cynnwys:
- Tri phrosiect sydd wedi'u cwblhau'n llawn ac sy'n weithredol;
 - Prosiect arall lle mae'r elfennau adeiladu mwyaf arwyddocaol wedi'u cwblhau ac yn weithredol;

¹⁵ Mae cynllun gwaith RIBA yn cynnwys wyth cam gwaith ar wahân y mae pob un yn mynd i'r afael â chyfnod gofynnol o ddilyniant prosiectau adeiladu, o'r dechrau i'r diwedd. Mae gan bob cam dasgau ac allbynnau penodedig, sy'n anelu at sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni a'i gwblhau i safon broffesiynol uchel. Mae cam 3 RIBA yn ei gwneud yn ofynnol i brosiectau 'baratoi dyluniad datblygedig', gan nodi cynigion ar gyfer dylunio strwythurol, systemau gwasanaethau adeiladu, manylebau amlinellol a gwybodaeth am gostau i'w cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol.

- Prosiectau sy'n cael eu hadeiladu, er mewn rhai achosion – fel y nodwyd yn ffigur 2.1 – mae'r prosiectau hyn yn cynnwys pecynnau gwaith sydd wedi'u cwblhau;
- Mae dau brosiect yn profi oedi: Mae Canolfan Forwrol Porthcawl yn dal i fynd drwy broses gynllunio / paratoi'r tir ac nid yw ar y safle eto; mae Parc a Chanolfan Gweithgareddau Llys y Fran wedi cael problemau yn y cyfnod adeiladu wrth i'r contractwr fynd i mewn i ddwylo'r gweinyddwyr.

4.18 Mae manteision ac anfanteision posibl i gynnydd amrywiol prosiectau TAD. Mae mantais y gall y prosiectau hynny yng nghyfnodau cynharach eu datblygiad ddysgu o brofiadau prosiectau mwy datblygedig. Mae cyfarfodydd chwarterol buddiolwyr ar y cyd yn cynnig fforwm i helpu hwyluso'r broses hon o gyfnewid gwybodaeth a phrofiad; fodd bynnag, hyd yma, yn gyffredinol, teimla buddiolwyr ar y cyd y gellid hwyluso rhannu gwybodaeth pellach ar gyfnewid arferion da yn y cyfarfodydd hyn. O safbwynt gwerthuso, mae'r gwahanol amserlenni ar gyfer cyflawni yn wynebu heriau gan y bydd data lefel prosiect ar ganlyniadau yn dod i'r amlwg ar wahanol adegau, gan ei gwneud yn anodd o bosibl i ddadansoddi a chwblhau gwerthusiad cyfunol o ganlyniadau allweddol a manteision ehangach y gweithrediad.

4.19 Y prif heriau a adroddwyd gan fuddiolwyr ar y cyd yw:

- Oedi wrth gwblhau cynlluniau, sicrhau cymeradwyaeth a llofnodi contractau. Ymddengys bod sawl ffactor yn cyfuno i achosi'r oedi hwn. Mewn rhai achosion, nodwyd bod angen diwygio cynlluniau busnes ar lefel prosiect er mwyn gwella lefel y manylder ac ansawdd rhai agweddau o'r cynlluniau. Yn ogystal, priodolodd rhai buddiolwyr ar y cyd oedi i'r ffaith bod WEFO a Croeso Cymru wedi newid eu gofynion WEFO, yn arbennig o ran cyrraedd RIBA cam 3, fel y nodwyd uchod. Mae'n bwysig nodi bod buddiolwyr ar y cyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir gan Croeso Cymru, ond roedd rhai'n teimlo bod rôl Croeso Cymru fel canolwr rhwng buddiolwyr ar y cyd a WEFO wedi arafu'r broses.
- Mae nifer o fuddiolwyr ar y cyd wedi profi anawsterau technegol yn gysylltiedig â phrosiectau adeiladu mawr. Mae nifer o brosiectau'n cynnwys uwchraddio a/neu ailwampio hen adeiladau rhestredig, e.e. castell Caernarfon, sydd wedi achosi rhywfaint o densiwn â phartneriaid statudol a

heriau o ran cyflawni. Yn ogystal, mae nifer o brosiectau'n cael eu datblygu mewn lleoliadau sy'n sensitif i'r amgylchedd, sydd, mewn rhai achosion, wedi arwain at oedi. Er enghraifft, dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn y gellir cynnal rhai gweithiau ar Driongl Antur Camlas Sir Fynwy, oherwydd materion ecolegol sy'n gysylltiedig â dyfrgwn.

- Mae rhai buddiolwyr ar y cyd wedi profi anawsterau yn ymwneud â thendro a sicrhau contractwyr, sydd wedi achosi oedi. Mae Parc Llys y Fran a'r Ganolfan Weithgareddau yn wynebu oedi gan fod eu contractwr, a oedd eisoes ar y safle, wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.
- Mae'r holl fuddiolwyr ar y cyd wedi pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth lunio, dylunio a chyflawni prosiectau. Fodd bynnag, mynegodd nifer o fuddiolwyr ar y cyd yr heriau a oedd ynghlwm wrth sicrhau consensws, yn enwedig pan oedd hyn wedi cynnwys ymgysylltu â'r gymuned.
- Mynegodd rhai buddiolwyr ar y cyd bryder bod y broses gychwynnol o gynllunio a datblygu cynlluniau prosiect cyn eu cymeradwyo yn digwydd ar eu risg eu hunain. Mae hyn yn milwrio yn erbyn sefydliadau preifat a thrydydd sector, o gymharu â'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â rhaglenni ariannu eraill (lle mae cyllid y cyfnod datblygu ar gael). Fodd bynnag, mae dyfarnu Arian Cyfatebol wedi'i Dargedu (TMF) i'r rhan fwyaf o brosiectau (11 allan o 13) wedi galluogi buddiolwyr ar y cyd i ariannu'r broses o gynllunio a datblygu prosiectau hanfodol cyn adeiladu.

4.20 Er ei bod ar gam cymharol gynnar o hyd o ran nifer y prosiectau sydd wedi'u cwblhau, mae gweithrediad TAD yn gwneud cynnydd rhesymol tuag at gyflawni ei ddangosyddion. Mae'r cynnydd a wnaed drwy'r gweithrediad hyd yma yn gadarnhaol, o ystyried rhai o'r heriau a wynebwyd. Fodd bynnag, mae rhai risgiau gweithredol yn parhau, er enghraifft, mewn perthynas â chaffael, arian cyfatebol heb ei gadarnhau, gorwariant a dibyniaeth ar wariant a chyflenwi gan sefydliadau trydydd parti. Mae buddiolwyr ar y cyd yn hyderus yn eu gallu i fynd i'r afael â'r materion hyn a chwblhau o fewn yr amserlen y gweithrediad.

4.21 Er gwaethaf newidiadau i brosiectau unigol o ran cynlluniau a phroffiliau gwariant, nid oes yr un o'r buddiolwyr ar y cyd wedi newid eu Cynlluniau Busnes gwreiddiol i adlewyrchu newidiadau i ddyluniad, darpariaeth a chyllid. Felly nid yw'r Cynlluniau

Busnes yn adlewyrchu'n gywir y newidiadau sydd wedi digwydd (y cytunwyd arnynt gyda Croeso Cymru drwy, er enghraifft, adroddiadau cynnydd a ffurflenni chwarterol), fodd bynnag mae diwygiadau i dargedau perthnasol wedi cael eu cofnodi mewn adroddiadau monitro ac mewn dogfennaeth rhwng buddiolwyr ar y cyd, Croeso Cymru a WEFO. Efallai y bydd buddiolwyr ar y cyd am ystyried diweddaru Cynlluniau Busnes i adlewyrchu newidiadau. Byddai hyn o fudd i'r gwerthusiad terfynol o ran darparu darlun cywir, cyfredol o'r prosiectau unigol.

Canlyniadau cychwynnol gweithrediad TAD

- 4.22 Fel y nodwyd uchod, nod TAD yw cefnogi amcanion rhaglen ERDF drwy gynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiad wedi'i dargedu mewn seilwaith twristiaeth rhanbarthol. Ar hyn o bryd, mae'n anodd mesur llwyddiant y gwaith, neu ddod i gasgliadau cychwynnol yn ei erbyn, o 'i gymharu â'i nod strategol allweddol, neu yn wir ei effaith o ran cyflawni newid trawsnewidiol ar gyfer economi ymwelwyr Cymru.
- 4.23 Yn ogystal â bodloni allbynnau WEFO, nod y prosiectau yw creu manteision economaidd ategol ar gyfer y gyrchfan a'r rhanbarth ehangach. Er bod y ffocws ar ganlyniadau economaidd, yn benodol i gynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn cefnogaeth seilwaith wedi'i blaenoriaethu'n rhanbarthol, mae trafodaethau gyda buddiolwyr ar y cyd yn dangos bod buddsoddiad TAD yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at amcanion adfywio ehangach. Mae trafodaethau wedi dangos nifer o enghreifftiau o werth ychwanegol drwy fuddsoddiad TAD, yn cynnwys cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion adfywio ehangach.

Ychwanegu gwerth at adfywio lleol

- 4.24 Un thema gyffredin gan fuddiolwyr ar y cyd fu'r effaith (parhaus) o weithredu TAD ar adfywio lleol ac ar fynd i'r afael â rhai o'r problemau cymdeithasol ac economaidd ehangach a brofwyd mewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae ffocws buddsoddiad cyfalaf ar wella a chyfoethogi profiad yr ymwelydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at amcanion eraill.
- 4.25 Mae'r buddsoddiad yn y glannau ym Mae Colwyn yn sicrhau bod Bae Colwyn yn cael ei ddiogelu yn y tymor hir, gan gynnwys cynnig amgylchfyd modern,

cynaliadwy a deniadol i'r cyhoedd sy'n denu ymwelwyr newydd i'r ardal. Yn yr un modd, mae'r buddsoddiad yn Saundersfoot wedi "adfywio'r ardal" drwy sefydlu lleoliadau gweithgareddau dŵr a chyfleusterau newydd i'r teulu sy'n ategu ac yn atgyfnerthu gweithgareddau hamdden a masnachol y dref.

- 4.26 Yn bwysig iawn i Croeso Cymru, mae'r gwerth ychwanegol y mae'r gweithrediad yn ei greu i'r sector twristiaeth yng Nghymru yn sylweddol: mae'r gweithrediad yn cyfateb i fuddsoddiad o £62m yn deillio o fuddsoddiad o £4m yn unig o gyllid craidd Croeso Cymru, gan roi cyfle unigryw i gefnogi blaenoriaethau adfywio drwy fuddsoddiadau sylweddol.

Newid proffil, canfyddiad a hunaniaeth lle

- 4.27 Mae gweithrediad TAD yn cael effaith gadarnhaol ar godi proffil cyrchfannau a denu diddordeb buddsoddwyr y sector preifat. Er enghraifft, mae buddiolwyr partner yng Nghaernarfon yn casglu data ymwelwyr sy'n dangos bod y proffil a gynhyrchir gan Galeri yn arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr newydd i'r gyrchfan yn ogystal â newid yn y defnydd o'r cyfleuster gan symud tuag at fod yn atyniad drwy'r flwyddyn.
- 4.28 Mae cynrychiolwyr prosiect a staff yn adrodd bod buddsoddiad yn Rock UK yn herio (ac yn wir yn newid) canfyddiadau lleol a chenedlaethol o Ferthyr Tudful fel cyrchfan ar gyfer twristiaeth antur a gweithgareddau. Ategir hyn gan adborth a gesglir gan ymwelwyr i'r safle.

Dylanwadu ar fuddsoddiad

- 4.29 Mae buddsoddi gan y sector preifat yn elfen hanfodol o adfywiad effeithiol ac mae'n thema ganolog ym mholisi'r Llywodraeth. Eisoedd ceir enghreifftiau lle mae buddsoddiad a darpariaeth TAD yn denu buddsoddiad. Mae'r gwelliannau i lan y môr a'r promenâd ym Mhorthcawl yn arwain at gynnydd yn niddordeb buddsoddwyr mewn nifer o gyfleoedd datblygu 'arwyddocaol' o amgylch y gyrchfan. Mae'r defnydd 'dros dro' o leoliadau yn Rest Bay a Chiosg yr Harbwr yn arwydd o newid, a gobeithir y bydd yn arwain at drawsnewid sylweddol ar gyfer rhai o'r safleoedd adfywio mwy yn y dref dros y 5-10 mlynedd nesaf.

Gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth

- 4.30 Mae gweithrediad TAD wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer gwella gwaith partneriaeth ac arweinyddiaeth ar draws y sector twristiaeth. Ar y cyfan, mae TAD wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i gydweithio, gan ddod â phartneriaid at ei gilydd.
- 4.31 Mae buddiolwyr ar y cyd a rhanddeiliaid eang yn adrodd bod y cyd-weithio rhwng ystod o bartneriaid wedi bod yn effeithiol ac wedi helpu i greu consensws ac ymrwymiad o ran dylunio, datblygu a chyflawni prosiectau. Mae hyn yn benodol yn wir o ran prosiectau sydd â 'phecyn' o brosiectau, er enghraifft y Triongl Antur (Camlas Sir Fynwy Aberhonddu). Fodd bynnag, ystyrir bod gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol yn gofyn defnydd dwys o adnoddau.
- 4.32 Mae dod â buddiolwyr ar y cyd at ei gilydd mewn gweithdai ers dechrau'r gweithrediad wedi bod yn ddefnyddiol. Ceir consensws bod y grŵp llywio yn gweithio'n dda i gefnogi prosiectau, gan ddarparu llwyfan i gyfnewid arferion da a syniadau. Fodd bynnag, mae buddiolwyr ar y cyd yn adrodd y gallai'r grŵp fod yn fwy deinamig o ran trosglwyddo gwybodaeth, er enghraifft drwy brosiectau mwy datblygedig sy'n darparu cyngor un-i-un neu fentora (anffurfiol) i brosiectau sy'n dal i weithio eu ffordd drwy faterion y mae eraill wedi'u hwynebu ac wedi goresgyn.

5. Integreiddio themâu trawsbynciol a'r iaith Gymraeg ar draws y gweithrediad

5.1 Mae'n ofynnol bod gweithrediad TAD yn integreiddio themâu trawsbynciol 2014-2020 ERDF yn ei weithrediad. Dyma'r themâu trawsbynciol:

- Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd;
- Datblygu cynaliadwy; a
- Threchu tlodi ac allgau cymdeithasol.

5.2 Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i'r sector twristiaeth dyfu mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac sy'n gwneud cyfraniad cynyddol at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymunedau o fewn ardal y gweithrediad. Mae gweithrediad TAD yn cynnwys nifer o brosiectau eang eu cwmpas, sy'n ymdrin â sawl maes o effaith amgylcheddol posibl, cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw, a threchu tlodi ac allgau cymdeithasol. Un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer buddiolwyr ar y cyd oedd sicrhau bod themâu trawsbynciol yn cael eu hymgorffori yn y broses o ddatblygu, arfarnu a monitro prosiectau o'r cychwyn cyntaf.

5.3 Mae gweithrediad TAD Croeso Cymru yn cynnwys dadansoddwr monitro, sy'n gyfrifol am reoli a monitro cynnydd y 13 prosiect TAD mewn modd cydlynol. Mae'r rôl yn darparu cymorth canolog i bob safle a gweithgaredd i sicrhau bod prosiectau'n cael eu rheoli a'u monitro'n briodol i alluogi asesiad o effeithiau economaidd ac amgylcheddol.

5.4 Y prawf allweddol o effeithiolrwydd y dull y mae gweithrediad TAD wedi'i fabwysiadu i gefnogi'r themâu trawsbynciol yw'r graddau y maent wedi'u gwreiddio oddi fewn y tri phrosiect ar ddeg. Mae ein hadolygiad cychwynnol o'r prosiect wedi datgelu darlun cymysg o ran y graddau y mae'r themâu trawsbynciol wedi cael eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio, darparu a monitro gweithgarwch ar y lefel prosiect. Nid yw ymateb i themâu trawsbynciol a mynd i'r afael â hwy yn weithgareddau newydd ac, mewn llawer o achosion, maent yn cyd-fynd yn agos â strategaethau, amcanion polisi a darpariaeth rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn arbennig o wir lle caiff prosiectau eu harwain gan awdurdodau lleol, lle ymddengys bod themâu trawsbynciol yn cael ei integreiddio'n effeithiol wrth ddylunio a datblygu prosiectau a'r broses arfarnu. Yn wir, mae pwysigrwydd a

phwyslais cynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith i gyrff cyhoeddus ar gyfer gweithredu tymor hir wedi golygu integreiddio'r themâu trawsbynciol yn eu gwaith o ddatblygu ac arwain prosiectau. Mae'r holl bartneriaid wedi cyflwyno gwybodaeth am sut y bydd eu gweithgarwch prosiect yn cyfrannu'n weithredol at y nodau ar gyfer datblygu cynaliadwy a nodir yn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- 5.5 Ar hyn o bryd, mae'r amserlen gyflawni yn ei gwneud yn anodd mesur effaith integreiddio themâu trawsbynciol. Dyma rai o'r pwyntiau allweddol a ddeilliodd o'r adolygiad:

Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd

- 5.6 Mae'r gofyniad i sicrhau bod angen i bob cyrchfan ac atyniad fod yn hygyrch i bawb waeth beth fo'u hanabledd corfforol, nam ar y synhwyrâu, anabledd dysgu, problem iechyd meddwl neu unrhyw nam arall yn elfen graidd ar gyfer yr holl brosiectau. Er enghraifft, mae hygyrchedd i lannau Bae Colwyn yn elfen allweddol ac mae rampiau mynediad wedi eu darparu ar y traeth. Mae'r prosiect hefyd yn hyrwyddo ac yn annog defnydd yn ystod y nos drwy wella diogelwch, er enghraifft goleuadau, gan weddnewid ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 5.7 Lle bynnag y bo modd, mae prosiectau adeiladu cyfalaf newydd yn cynllunio i fynd ymhellach na gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DDA) i sicrhau bod lleoliadau, meysydd parcio, toiledau, atyniadau, llwybrau beicio, rhodfeydd a chanolfannau ymwelwyr yn hygyrch ac yn gallu gael eu defnyddio gan bobl anabl. Er enghraifft, bydd cynlluniau dylunio ar gyfer Canolfan Forol Porthcawl yn ymgorffori arfer da yn y maes hwn ac yn cynnwys goleuadau meddal, arwyddion hygyrch, a chynlluniau lliw hygyrch.
- 5.8 Mae'r sector twristiaeth yn cyflogi cyfran uwch o bobl iau (16-24) na'r sectorau blaenoriaeth eraill a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.¹⁶ Mae Rheilffordd Cwm Rheidol wedi ymrwymo i weithio gydag ysgolion a cholegau i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arno. Mae gan Rheilffordd Cwm Rheidol hanes o ddarparu

¹⁶ Y sectorau blaenoriaeth yw: twristiaeth, gweithgynhyrchu deunyddiau uwch, adeiladu, diwydiannau creadigol, amgylchedd ynni, ffermio bwyd, gwasanaethau ariannol proffesiynol, TGCh, gwyddorau bywyd

cyfleoedd a lleoliadau i bobl sydd wedi dioddef camwahaniaethu neu broblemau iechyd meddwl.

Datblygu cynaliadwy

- 5.9 Yn achos prosiectau cyfalaf, mae'r thema trawsbynciol datblygu cynaliadwy wedi cael effaith glir ar ddyluniad. Mynegwyd y farn yn gyson bod egwyddorion cynaliadwy yn rhan annatod o dylunio adeiladau. Mewn nifer o achosion, mae prosiectau'n ceisio cyflawni'r dyfarniadau rhagoriaeth uchaf o ran adeiladu a gweithredu. Yn sicr, mae hyn wedi bod yn un o egwyddorion craidd Glannau Bae Colwyn, a enillodd wobr ICE Cymru mewn cydnabyddiaeth am gyflawniad peiranyddol rhagorol.
- 5.10 Mae caffael cynaliadwy hefyd yn ffactor wrth hyrwyddo twf economaidd lleol cynaliadwy a chynhwysol. Mae nifer o fuddiolwyr ar y cyd wrthi'n ceisio gwneud defnydd o fusnesau lleol lle bynnag y bo modd, fel rhan o'u gwaith i gefnogi buddion cymunedol, er mwyn helpu i gynnal yr economi leol.

Trechu tlodi ac allgau cymdeithasol

- 5.11 Bydd y gweithrediad yn cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi drwy ganolbwyntio ar greu swyddi uniongyrchol, yn barhaol a thros dro, ar gyfer pobl sydd allan o waith a thrwy gryfhau'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi. Mae pwysigrwydd cyflogaeth, hyd yn oed os yw ar gyflog isel, ar gyfer osgoi tlodi dwfn/parhaus a hybu lles wedi'i hen sefydlu. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb* yn creu fframwaith ar gyfer dull llywodraeth-gyfan o fynd ati i gynyddu ffyniant a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi mewn ffordd effeithiol, gyd-gysylltiedig. Mae'n cyflwyno tystiolaeth gref bod cyflogaeth yn cynnig lefel uchel o ddiogelwch rhag tlodi i unigolion a theuluoedd ac yn cydnabod mai drwy gyflogaeth y mae'r llwybr gorau allan o dlodi.
- 5.12 Mae enghreifftiau o ymyriadau sy'n mynd i'r afael â mynediad i gyflogaeth yn cynnwys:
- Mae Castell Caernarfon yn cysylltu â phrosiectau cyflogadwyedd lleol yn ogystal â chyflwyno cymalau cymdeithasol yn ystod y cyfnodau adeiladu i

ddarparu cyfleoedd prentisiaeth a lleoliadau gwaith gyda cholegau addysg bellach lleol.

- Mae gan reilffordd Cwm Rheidol brofiad blaenorol o ymgysylltu ag asiantaethau'r Llywodraeth i helpu gyda'r rhaglen dychwelyd i'r gwaith. Maent wedi cynnig cyfleoedd i lawer o unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith ac yn ddifreintiedig dros gyfnod hir i ddysgu sgiliau a magu hyder i'w galluogi i ddechrau gweithio naill ai am y tro cyntaf neu i ailymuno â'r gweithlu.
- Bydd buddsoddi mewn cyfleusterau pob tywydd gydol y flwyddyn yn helpu i ymestyn y tymor twristiaeth, gan wella cyfleoedd gwaith a darparu mwy o swyddi llawn amser drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rheilffordd dreftadaeth yn mynd i'r afael â hyn drwy roi cyflog drwy gydol y flwyddyn, er mwyn helpu pobl leol i ddod allan o fagl tlodi.

Yr iaith Gymraeg

5.13 Mae Cynllun Busnes TAD yn nodi ymrwymiad y bydd y gweithrediad yn cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Gymraeg. Mae'r cynlluniau busnes yn ymrwymo i wneud hyn drwy gynyddu 'defnydd o'r Gymraeg gan gyfranogwyr', gan 'gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau', 'gwella sgiliau iaith Gymraeg' a 'gwella cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd Cymraeg'. Ers i Gynllun Busnes TAD gael ei gwblhau, mae'r cyd-destun strategol wedi symud ymlaen gyda chyhoeddiad strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017).¹⁷ Mae *Cymraeg 2050* yn nodi dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy:

- (i) Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- (ii) Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a
- (iii) Creu amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg drwy seilwaith a chyd-destun.

¹⁷ [Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg](#)

- 5.14 Mae Cymraeg 2050 yn uchelgeisiol o ran ei gweledigaeth ac yn annog dull gweithredu rhagweithiol ar draws pob sector er mwyn galluogi defnydd mwy helaeth i'r iaith a chynnydd yn y nifer sy'n ei siarad. Mae'n cyfeirio at y cyfleoedd mewn sectorau penodol ac yn nodi y gall yr iaith fod yn rhan annatod o'r ddarpariaeth mewn twristiaeth.

'Gall y Gymraeg hefyd ychwanegu at ymdeimlad o le ac mae llawer o frandiau eisoes yn ei defnyddio fel elfen werthu unigryw.' (Cymraeg 2050)

- 5.15 Archwiliodd y gwaith maes gyda buddiolwyr ar y cyd y ffyrdd y mae prosiectau wedi defnyddio'r Gymraeg. Cyfeiriodd nifer o brosiectau at y ffaith bod yr iaith yn cael ei defnyddio fel rhan o seilwaith ffisegol – h.y. drwy arwyddion ac yn y ffordd y caiff safleoedd eu henwi. Nododd eraill fod byrddau gwybodaeth yn cael eu datblygu'n ddwyieithog, gan sicrhau bod yr iaith yn cael lle blaenllaw a'i bod yn cael ei thynnu i sylw ymwelwyr.

- 5.16 Eglurodd y buddiolwyr ar y cyd fod hyn yn cynrychioli parhad o ran arfer sefydledig mewn sawl ffordd. *"Drwy ein polisi iaith Gymraeg fel sefydliad, mae hyrwyddo'r iaith ynghlwm wrth bob contract a osodir gennym. Yn achos TAD, roedd ymgynghoriad cyhoeddus yn ddwyieithog, ac roedd yn ofynnol i'r contractwr gael swyddog cyswllt cyhoeddus dwyieithog ar waith i allu gweithio gyda'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg. "*

- 5.17 Mewn rhai achosion, nododd buddiolwyr ar y cyd eu bod wedi recriwtio neu wedi bwriadu recriwtio siaradwyr Cymraeg mewn rolau sy'n wynebu'r cyhoedd (swyddfeydd tocynnau, derbynfeydd, desgiau gwybodaeth) er mwyn *'darparu profiadau cwsmer dwyieithog i bobl leol'*. Roedd eraill yn cydnabod gwerth sicrhau bod ymwelwyr o'r tu allan i Gymru yn clywed yr iaith ac yn gwerthfawrogi eu bod mewn gwlad a diwylliant gwahanol, gan adleisio'r pwynt am hyrwyddo 'ymdeimlad o le' yn Cymraeg 2050.

- 5.18 Mynegodd nifer o fuddiolwyr ar y cyd eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ond cyfeiriwyd hefyd at yr anawsterau a brofwyd wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Nododd un cynrychiolydd o'r prosiect: *'Mae'n dal i fod yn her i gyflogi siaradwyr Cymraeg lleol gan fod llawer yn tueddu i symud i ffwrdd. Rydym yn ceisio cynnig cyfleoedd cyflogaeth da i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn yr ardal ac mae (TAD) yn cefnogi hyn. ' Soniodd eraill hefyd am fanteision*

economaidd ehangach y gweithrediad, gan nodi bod y buddsoddiad yn cefnogi busnesau lleol, cyflenwyr a, thrwy gyfleoedd cyflogaeth, yn annog pobl i aros yn yr ardal, gan gynnwys mewn cymunedau lle mae cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

- 5.19 Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg, felly, o gyfraniad y gweithrediad at nodau Cymraeg 2050. Efallai fod lle i brosiectau fabwysiadu ymddygiadau mwy rhagweithiol i gefnogi'r iaith, yn enwedig wrth i nifer cynyddol o brosiectau ddod yn weithredol. Mewn rhai achosion, soniodd cynrychiolwyr prosiectau am 'gydymffurfio' â pholisïau neu ofynion iaith Gymraeg mewnol. Er enghraifft, prin oedd y cyfeiriadau digymell at ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu presennol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Efallai bod hyn yn adlewyrchu diffyg ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth i gefnogi sgiliau. Mae hefyd yn tanlinellu pwynt yn *Cymraeg 2050* ynghylch yr angen am 'newid diwylliant' ymhlith sefydliadau o bob maint ac ym mhob sector i symud o gydymffurfio â pholisïau a deddfwriaeth i gydnabyddiaeth o'r manteision y gall gweithlu dwyieithog eu cyfrannu at eu sefydliadau a'r economi ehangach. Mae'r manteision hyn yn cynnwys y gallu i gynnig gwasanaethau a phrofiadau dwyieithog i ymwelwyr neu gwsmeriaid. Cyfeiriodd prosiectau TAD at bwysigrwydd gallu darparu ar gyfer ymwelwyr lleol yn eu dewis iaith a'r gwerth diwylliannol drwy roi cipolwg ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru i ymwelwyr o fannau eraill a sicrhau eu bod yn medru gweld a chlywed yr iaith.

6. Marchnata

Cefndir

- 6.1 Mae'r arian sydd ar gael drwy weithrediad TAD yn canolbwyntio'n bennaf ar fuddsoddiad cyfalaf. Mae'r broses o lywodraethu'r gweithrediad wedi'i chynllunio i sicrhau enillion effaith eilaidd o ran cyd-gymorth, dysgu arfer gorau a rhannu profiadau rhwng buddiolwyr ar y cyd ac, wrth gwrs, cafodd dyfarniadau cyllid unigol eu gwneud ar sail 'cydweddu'n strategol' â strategaeth dwristiaeth ehangach Cymru. Nid yw'r un o'r rhain eu hunain fodd bynnag yn sicrhau bod ymwelwyr i Gymru yn cael eu cyflwyno i'r gweithrediad mewn ffordd gydlynol - bydd unrhyw 'weddnewid' yn cael ei gyflawni gan fod y prosiectau ar y cyd yn sbarduno twf mewn niferoedd ymwelwyr, lefelau gwariant a galw gan ddefnyddwyr am Gymru. Dyma'r adeg y mae canlyniadau cyflogaeth a chynaliadwyedd yn dechrau cael eu gwireddu y tu hwnt i unrhyw gam adeiladu cychwynnol. Mae'n wir i ddweud, felly, ei bod hi'n hanfodol bod yn y buddsoddiad cyfalaf yn cael ei gefnogi gan weithgarwch marchnata a chyfathrebu ar gyfer gweithrediad TAD er mwyn cyrraedd ei dargedau cyffredinol.
- 6.2 Wrth gwrs, mae'r prif gyfrifoldeb am farchnata'r safleoedd TAD unigol a chyrchfannau yn dal i fod gyda'r buddiolwyr ar y cyd eu hunain. Yn unol â hynny, roedd rhai buddiolwyr ar y cyd wedi adnabod dyraniadau penodol ond cymharol fychan ar gyfer marchnata o fewn eu cynlluniau busnes drafft unigol, cyn cadarnhau dull mwy strategol a chyd-gysylltiedig o weithredu.
- 6.3 I'r perwyl hwn, sicrhodd Croeso Cymru ddyraniad refeniw o £2.4 m o fewn gweithrediad cyffredinol TAD ar gyfer marchnata. Mae Croeso Cymru yn bwriadu defnyddio £2 filiwn o'r arian hwn ochr yn ochr â gwariant craidd ar ymgyrch farchnata ar deledu, ar-lein a thrwy'r fasnach deithio. Bydd yr ymgyrch yn adnabod y prosiectau TAD hynny sy'n barod i dderbyn ymwelwyr fel prif gynnyrch ym Mlwyddyn yr Awyr Agored 2020/21 a thu hwnt, yn ogystal â rhoi cynnwys ar ymgyrchoedd i gyd-fynd â menter Ffordd Cymru¹⁸ – mae'r rhain yn elfennau

¹⁸ Gellir cysylltu pob prosiect TAD ag un o'r tair llwybr 'Cymru' cychwynnol, sy'n fecanwaith pwysig ar gyfer rhoi hyder i'r rheiny sy'n ymweld â Chymru am y tro cyntaf, yn cynnwys ymwelwyr o dramor. Gweler Atodiad 3.

allweddol o frand 'Dyma Gymru/Gwlad Gwlad' sydd wedi ei chyflwyno'n llawn ers i weithrediad TAD gael ei ddyfeisio gyntaf.

- 6.4 Mae'r dull gweithredu uchod yn debyg i'r hyn a gymerwyd drwy rhaglen ddiwethaf E4G ond un wers glir a ddysgodd Croeso Cymru o'r rhaglen honno hynny oedd yr angen i sicrhau bod buddiolwyr ar y cyd yn ymrwymedig i drefniadau marchnata ar y cyd yn ogystal â datblygu eu prosiectau unigol. Mewn ymateb i hwn, mae £25k-£30k ar gael fesul prosiect a fydd yn seiliedig ar gynlluniau marchnata 'cystadleuol' sy'n cael eu cyflwyno. Mae canllawiau'r broses ddyrannu hon wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu rhannu gyda buddiolwyr ar y cyd yn fuan. Yn ogystal, bydd Croeso Cymru yn cyflogi aelod o staff sydd wedi'i leoli yn ei dîm marchnata i roi cymorth i gyd-fuddiolwyr o ran cyflenwi marchnata a darparu cyswllt strategol rhwng gweithgareddau lleol a chenedlaethol. Dylai'r cyswllt agosach hwn hefyd leddfu'r rhwystredigaeth a grybwyllwyd gan rai buddiolwyr ar y cyd nad yw Croeso Cymru yn defnyddio'r cynnwys mae buddiolwyr ar y cyd yn darparu ar gyfer dosbarthiad ehangach drwy ei sianelau ar-lein.
- 6.5 Yn fwriadol, nid yw'r symiau unigol sydd i'w dyrannu i fuddiolwyr ar y cyd ar gyfer marchnata yn fawr er mwyn:
- Annog peidio â defnyddio'r gyllideb a ddefnyddir i ariannu staff (neu sybsideiddio gorbenion presennol)
 - Annog buddiolwyr ar y cyd i archwilio cyfleoedd i gydweithredu ar weithgarwch marchnata, gan hyrwyddo cysylltiadau rhwng safleoedd a chyrchfannau
 - 'Gwthio' buddiolwyr ar y cyd tuag at weithgareddau cost is ar-lein.
- 6.6 Bydd effeithiolrwydd cyffredinol y gweithrediad yn cael ei fesur drwy werthusiad marchnata a gomisiynwyd gan Croeso Cymru sy'n mesur effeithiau marchnata o ran taith y cwsmer e.e.:
- Gweithgarwch hyrwyddo cyrhaeddiad a lefelau ymgysylltu
 - Y gallu i alw ymgyrch i gof
 - Ymwybyddiaeth cyrchfannau, y tebygolrwydd o ymweld a chwilio'r brand
 - Gwerth ychwanegol, enillion ar fuddsoddiad a swyddi a gefnogir.¹⁹

¹⁹ Fel enghraifft o ba mor effeithiol yw gwerthusiad ar-lein o weithgarwch cyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru yn ystod cyfnod y strategaeth 'Partneriaeth ar gyfer Twf' yn dangos cynnydd o 7 y cant mewn

7. Casgliadau ac argymhellion interim

Casgliad cryno

- 7.1 Mae adran 1.7 yn nodi pedwar cwestiwn cyffredinol yr ydym wedi ceisio eu hateb yn yr adroddiad gwerthuso interim hwn. Rydym yn darparu ymateb cryno i'r cwestiynau hyn yn yr adran hon.

Pa gynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran gweithredu TAD?

- 7.2 Mae'r oedi o ran gweithredu a amlinellwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, ynghyd â data llinell sylfaen anghyflawn, yn cyflwyno heriau o ran asesu a mesur canlyniadau yn ystod y cam interim hwn o werthusiad TAD. Bydd canlyniadau ar lefel prosiect yn cael eu cyflwyno ar wahanol adegau, gan ei gwneud hi'n anodd i ddadansoddi a chwblhau gwerthusiad cyfunol o ganlyniadau allweddol a manteision ehangach y gweithrediad.

- 7.3 O ddweud hyn, yn ystod y cam interim hwn, nid oes unrhyw achos i argymhell unrhyw newidiadau arwyddocaol neu sylweddol i'r dull o fuddsoddi, y dyraniadau nac, yn wir, y gwaith cyffredinol o reoli'r gweithrediad. Mae gweithrediad TAD yn gwneud cynnydd da hyd yn hyn o ystyried yr amodau heriol y mae buddiolwyr ar y cyd wedi'u hwynebu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig mewn perthynas â chwblhau cynlluniau, sicrhau arian cyfatebol, caffael gwasanaethau i ddatblygu elfennau o'u prosiectau a'u capasiti.

Pa fylchau, os o gwbl, sydd yn y data neu'r wybodaeth er mwyn gallu asesu gweithrediad TAD yn erbyn amcanion y gwerthusiad?

- 7.4 Mae trefniadau monitro ar waith i gasglu data yn erbyn dangosyddion WEFO. Yn ogystal, mae'n ymddangos bod gan y rhan fwyaf o brosiectau ddata i allu dangos newidiadau yn niferoedd yr ymwelwyr i safleoedd dros amser. Mae buddiolwyr ar y cyd yn rhagweld y bydd prosiectau yn sicrhau effeithiau pellgyrhaeddol i ymwelwyr, safleoedd a'r gymuned ehangach. Mae data i alluogi asesiad o'r effeithiau ehangach hyn yn anghyflawn neu, mewn rhai achosion, heb ei ddatblygu i raddau helaeth. Mae angen fframwaith traweffaith sy'n cefnogi buddiolwyr ar y cyd i ddal y

traweffaith ar ganfyddiadau ymwelwyr yn ogystal ag unrhyw fuddion cymunedol ac economaidd ehangach sy'n deillio o gyllid TAD.

A oes unrhyw heriau'n gysylltiedig â gallu cyflawni amcanion y gwerthusiad?

- 7.5 Mae modd cyflawni amcanion y gwerthusiad, ar yr amod y gall nifer digonol o brosiectau rannu data cadarn ar eu hallbynnau a chanlyniadau er mwyn gallu cwblhau asesiad o'r gweithrediad yn ei gyfanrwydd erbyn cam terfynol y gwerthusiad. Mae heriau a chafeatau i'w cofnodi, fodd bynnag: mae agregu data er mwyn dod i gasgliadau ar y cyd ynghylch effaith y gweithrediad yn cyflwyno anawsterau oherwydd natur amrywiol y prosiectau a'r amserlenni gwahanol ar gyfer eu cwblhau.

Beth yw'r pwyntiau dysgu ar gyfer y gweithrediadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol?

- 7.6 Mae dal yn gynnar i ddod i gasgliadau pendant ynglŷn â'r pwyntiau dysgu mwy hirdymor. Fodd bynnag, yn seiliedig ar brofiadau'r prosiectau sydd wedi cwblhau, ceir arwyddion bod buddsoddiad sylweddol mewn nifer fach o gyrchfannau yn gwella'r cynnyrch twristiaeth, yn denu ymwelwyr newydd ac yn gatalydd ar gyfer gweithgarwch economaidd arall sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.
- 7.7 Yn dilyn yr adolygiad interim a'r asesiad o brosiectau, rydym yn nodi isod ein casgliadau interim ynghyd ag argymhellion awgrymedig i'w hystyried gan Croeso Cymru a buddiolwyr ar y cyd.

Casgliadau interim

Mae gan weithrediad TAD resymeg glir sy'n ategu polisiau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r sector.

- 7.8 Mae cefnogaeth ymhlith rhanddeiliaid a buddiolwyr ar y cyd i resymeg y gweithrediad a'i ddyhead i ddatblygu cyrchfannau ac atyniadau proffil uchel ledled Cymru. Bydd y buddsoddiad sylweddol mewn nifer fach o gyrchfannau yn gwella'r cynnyrch twristiaeth, yn denu ymwelwyr newydd ac hefyd yn gatalydd i weithgarwch economaidd a chysylltiedig â thwristiaeth yn eu hardaloedd a'u rhanbarthau lleol.

- 7.9 Cynlluniwyd gweithrediad TAD i fod yn rhan annatod o becyn o gyllid twristiaeth i dyfu'r sector, datblygu'r cynnyrch a chynyddu enillion i'r sector twristiaeth. Mae maint y buddsoddiad mewn nifer fach o safleoedd twristiaeth a flaenoriaethir yn rhanbarthol yn gwahaniaethu'r gronfa oddi wrth gronfeydd buddsoddi eraill fel y Cynllun Cefnogi Buddsoddiad Twristiaeth a'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth a Chronfa Busnesau Micro a Bychain. Mae cefnogaeth barhaus i erfyn buddsoddi o'r fath er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu cynnyrch o'r radd flaenaf sy'n ymateb i anghenion defnyddwyr a chyfleoedd yn y farchnad.

Mae gweithrediad TAD yn cyd-fynd yn dda â nodau rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a pholisïau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

- 7.10 Mae TAD yn cefnogi amcanion ERDF o dan Flaenoriaeth 4.4, sydd â'r nod o gynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith rhanbarthol neu wedi'i flaenoriaethu. Ceir tystiolaeth gynnar o gyfraniad TAD o ran cefnogi a chreu cyflogaeth, er mai dim ond darlun rhannol a geir ar hyn o bryd. Mae twristiaeth yn sector blaenoriaeth o'r economi sylfaenol yng Nghymru a bydd TAD yn helpu i godi proffil y sector a gwella'r arlwy i ymwelwyr. Mae Cynlluniau Busnes prosiectau unigol yn nodi sut y byddant yn cyfrannu at y nodau datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd gwaith parhaus yn ystod y gwerthusiad yn ystyried sut y caiff y cyfraniadau hyn eu cofnodi a'u mesur.

Argymhelliad: Ystyried sut i ddefnyddio model TAD mewn ffordd barhaus fel dull o fuddsoddi er mwyn cyflymu twf a datblygu profiadau i ymwelwyr sydd yn wirioneddol o safon fyd-eang yng nghyd-destun y strategaeth dwristiaeth genedlaethol y mae Croeso Cymru yn ei datblygu.

Mae Croeso Cymru wedi rheoli gweithrediad TAD yn effeithiol hyd yma

- 7.11 Yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymchwil primaidd gyda buddiolwyr ar y cyd a rhanddeiliaid, a chan ddefnyddio samplau o ddata monitro, mae rheolaeth weithredol TAD wedi bod yn effeithiol. Mae Croeso Cymru wedi mabwysiadu dull gweithredu cefnogol a chydweithredol ac wedi dangos parodrwydd i wneud gwelliannau a dysgu gwersi wrth i'r gweithrediad fynd rhagddo.

Mae partneriaethau agos gyda buddiolwyr ar y cyd wedi bod yn nodwedd o'r gweithrediad. Ni fu'r gweithrediad heb ei heriau. Mynegodd rhai prosiectau rwystredigaeth o ran oedi cyn cwblhau cynlluniau a phenderfynu ar ddyddiadau lansio, ond roeddent yn gwerthfawrogi rôl Croeso Cymru fel canolwr wrth oresgyn y materion a godwyd. Mae perthynas waith Croeso Cymru â WEFO hefyd yn allweddol ac maent wedi bod yn gyfrwng effeithlon o ran trosglwyddo gwybodaeth rhwng WEFO a buddiolwyr ar y cyd yn ystod gweithrediad cymhleth ac amlweddol. Mae Croeso Cymru hefyd wedi chwarae rôl fugeiliol gan weithio gyda buddiolwyr ar y cyd a chefnogi'r broses o gwblhau cynlluniau busnes, eu tywys drwy rai o'r prosesau gweinyddol a darparu cyngor a chymorth parhaus. Mae consensws bod rhwydwaith TAD sy'n cyfarfod bob chwarter yn gweithio'n dda, gan ddarparu llwyfan i gyfnewid arferion da a syniadau. Mae teimlad cyffredinol y gallai'r grŵp fod yn fwy deinamig o ran hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac arfer da ymhlith partneriaid.

- 7.12 Mae systemau a phrosesau effeithiol wedi cael eu datblygu a'u gwella, gan adeiladu ar raglenni ERDF blaenorol. Nid yw ein hadolygiad wedi canfod llawer o dystiolaeth i awgrymu unrhyw broblemau sylweddol o ran y ffordd y mae Croeso Cymru/WEFO wedi ymdrin â phrosiectau. Yn amlwg, mae heriau i ddilyn o ran rheoli a gweithredu (yn benodol mewn perthynas â mynd i'r afael â'r oedi posibl o ran cyflawni prosiectau a diffinio trefniadau marchnata) ond mae tîm Croeso Cymru yn cydnabod y risgiau o ran gweithredu a'r angen i weithredu'n fuan er mwyn paratoi ar gyfer y cyfnod gweithredu.

Argymhelliad: Sicrhau bod digon o gapasiti yn cael ei gadw o fewn tîm Croeso Cymru i reoli a chefnogi prosiectau TAD wrth iddynt symud tuag at gamau gweithredol.

Argymhelliad: Ystyried a ellid gwneud mwy o ddefnydd o'r wybodaeth ar draws rhwydwaith TAD i hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth. Dylid archwilio p'un a allai prosiectau sydd fwyaf datblygedig neu'n weithredol ddarparu cyngor un-i-un neu gymorth mentora i brosiectau sy'n wynebu heriau neu faterion y gallai eraill fod wedi dod ar eu traws a'u goresgyn. Er y gallai hyn eisoes fod yn digwydd yn anffurfiol, gellid ei hyrwyddo'n fwy gweithredol yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith.

Mae angen dull mwy cadarn a safonedig o gasglu data mewn perthynas â dangosyddion gweithredol nad ydynt yn ddangosyddion WEFO

- 7.13 Dewiswyd nifer cyfyngedig o ddangosyddion perfformiad craidd WEFO ar gyfer gweithrediad TAD ynghyd â tharged ychwanegol ar gyfer cynyddu nifer yr ymwelwyr i safleoedd TAD. Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau busnes unigol prosiectau TAD yn anelu at gynyddu nifer yr ymwelwyr gan 410,839. Mae'n ofynnol ar fuddiolwyr ar y cyd i adrodd ar niferoedd ymwelwyr ar lefel prosiect ar ôl cwblhau'r prosiect, ond nid yw hwn yn ddangosydd sy'n ofynnol gan WEFO. Er bod rhai cynlluniau busnes lefel prosiect yn cynnwys dangosyddion perfformiad eraill mewn rhai achosion, nid yw'r rhain yn cael eu monitro ac, o ganlyniad, nid yw data ar y targedau ychwanegol hyn yn cael ei gasglu ym mhob achos. Yn ddi-os, bydd prosiectau TAD yn arwain at ystod ehangach o ganlyniadau cadarnhaol ychwanegol, gan gynnwys canfyddiadau ymwelwyr o safleoedd, manteision cymdeithasol a chymunedol, effeithiau economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol. Rhannwyd enghreifftiau cychwynnol o effeithiau cadarnhaol ehangach gyda'r tîm gwerthuso. Mae'r enghreifftiau'n werthfawr ond mae angen eu hategu â data mwy cadarn. Gallai'r diffyg dulliau systematig ar gyfer cofnodi'r effeithiau hyn arwain at brosiectau'n darparu naratif ond heb ddata gwerthusol – ar lefel prosiect – i gefnogi'r canlyniadau pwysig eraill hyn. Fel yr amlinellwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad, yr amcan cyffredinol yw cyflawni newid trawsnewidiol ar gyfer economi ymwelwyr Cymru. Fodd bynnag, bydd y data monitro presennol yn ei gwneud yn anodd asesu a fydd gweithrediad TAD yn cyflawni hyn. Yn gysylltiedig â hyn, ymddengys bod diffyg eglurder ymysg nifer o fuddiolwyr ar y cyd ynghylch yr hyn sy'n ofynnol neu a ddisgwylir yn nhermau gwerthusiad ar lefel prosiect.

Argymhelliad: Ystyried datblygu fframwaith traweffaith ehangach sy'n cynorthwyo buddiolwyr ar y cyd i gasglu tystiolaeth ar draweffeithiau ar ganfyddiadau ymwelwyr yn ogystal â manteision cymunedol ac economaidd ehangach sy'n deillio o gyllid TAD.

Argymhelliad: Oddi fewn y fframwaith hwn, argymhelliad eilaidd y dylai holl safleoedd TAD gasglu data gan ddefnyddio holiadur Arolwg Ymwelwyr Cymru fel bod data ar brofiadau a chanfyddiadau ymwelwyr yn cael ei gasglu mewn fformat cyson a'i fwydo i mewn i'r gwerthusiad.

Mae lle i wella'r cysylltiadau â gweithgareddau a rhaglenni lleol a rhanbarthol eraill.

- 7.14 Mae Rhaglen Weithredol ERDF yn pwysleisio'r angen i weithrediadau a ariennir i gefnogi dull integredig ac i gyfrannu at faterion ehangach sy'n ymwneud â sgiliau isel a gweithgarwch economaidd. Yn achos Amcan Penodol 4.4, caiff hyn ei fesur yn erbyn cyfradd y bobl sy'n hawlio budd-daliadau mewn ardaloedd teithio i'r gwaith. Mae cwestiwn ynghylch a allai prosiectau – wrth iddynt aeddfedu – wneud mwy i archwilio a chryfhau cysylltiadau â rhaglenni sgiliau ac adfywio lleol.

Argymhelliad: Dylai buddiolwyr ar y cyd a buddiolwyr partner ystyried sut, wrth i'w prosiectau gwblhau a dod yn weithredol, y gellid creu partneriaethau a chysylltiadau â gweithgareddau a rhaglenni adfywio lleol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r prosiectau hynny sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth a sgiliau.

Mae gan weithrediad TAD systemau ar waith i sicrhau bod y themâu trawsbynciol yn cael eu hymgorffori fel rhan o'r ymyriad, ond ar lefel prosiect unigol gellid hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Gymraeg yn fwy gweithredol.

- 7.15 Mae tystiolaeth bod gan TAD fesurau digonol i fynd i'r afael â themâu trawsbynciol i hyrwyddo cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a mynd i'r afael â thlodi. Mae ein hadolygiad cychwynnol o'r prosiect wedi datgelu darlun cymysg o ran y graddau y mae'r themâu trawsbynciol wedi cael eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio, darparu a monitro gweithgarwch y prosiect. Mae integreiddio themâu trawsbynciol yn amlwg wrth gynllunio a gweithredu prosiectau gyda fframwaith monitro ac adrodd yn gefn iddo.
- 7.16 Er bod y cynllun TAD yn nodi set o ddangosyddion monitro arfaethedig, nododd rhai buddiolwyr ar y cyd bod diffyg eglurder ynghylch y targedau meintiol ar gyfer y themâu trawsbynciol a'u pwysigrwydd i'r gweithrediad cyffredinol. Mae'r adolygiad hefyd wedi nodi meysydd o arfer da gan fuddiolwyr ar y cyd ond mae angen sicrhau bod y meysydd hyn yn cael eu hyrwyddo ac y rhoddir cyhoeddusrwydd er mwyn iddynt gael eu rhannau gyda phartneriaid eraill.

Argymhelliad: Dylai Croeso Cymru a buddiolwyr ar y cyd ystyried a oes lle i ymgysylltu'n fwy gweithredol â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu gymunedau sy'n anos eu cyrraedd drwy waith eu prosiectau.

Mae rhanddeiliaid yn adrodd mai cymharol ychydig o ymwybyddiaeth sydd i'w gael o weithrediad TAD y tu hwnt i'r rhai a fu'n ymwneud yn uniongyrchol â'i weithredu.

- 7.17 Dim ond yn ddiweddar y pennwyd cynlluniau i gefnogi marchnata prosiectau TAD. Fel rhan o hyn, mae angen sicrhau dull cydlynol o farchnata safleoedd unigol a'u gwerth drwy fod yn rhan o weithrediad ar y cyd ac ar draws Cymru gyfan i hyrwyddo cyrchfannau o safon uchel.

Argymhelliad: Dylai Croeso Cymru sicrhau bod prosiectau TAD yn cael eu hyrwyddo'n amlwg fel rhan o ymgyrchoedd a mentrau cenedlaethol, a bod cyfleoedd yn cael eu cyflwyno yn ystod Blwyddyn yr Awyr Agored 2020/21 a Llwybrau Cymru.

Argymhelliad: Dylid annog buddiolwyr ar y cyd i archwilio cyfleoedd marchnata ar y cyd lle bo hynny'n ymarferol. Gellid archwilio teithiau ymwelwyr arfaethedig sy'n cynnwys gwahanol safleoedd TAD, gan ddilyn dull â thema neu ganolbwyntio ar agosrwydd daearyddol.

Bu newidiadau sylweddol i rai manylebau prosiect, cynlluniau a phroffiliau ariannol ers i gynlluniau busnes gwreiddiol buddiolwyr ar y cyd gael eu cymeradwyo.

- 7.18 Mae'r diwygiadau hyn a'r diwygiadau i dargedau perthnasol wedi'u cofnodi mewn adroddiadau monitro ac mewn cyfathrebu rhwng cyd-fuddiolwyr, Croeso Cymru a WEFO. Mae angen sicrhau bod y gwerthusiad yn ystyried y cynlluniau a'r targedau diwygiedig hyn fel bod y gwaith yn cael ei asesu yn erbyn cynlluniau terfynol (a thargedau) y cytunwyd arnynt.

O ganlyniad i'r trefniadau ariannu, mae'r gweithrediad yn llai deniadol i sefydliadau sector preifat neu fudiadau trydydd sector nag i sefydliadau sector cyhoeddus mwy o faint.

- 7.19 Nododd nifer o fuddiolwyr ar y cyd bryderon difrifol yn ymwneud â llif arian, yn enwedig yn ystod camau cynnar eu datblygiad a chyn i brosiectau dderbyn cymeradwyaeth derfynol. Mae hyn wedi arwain at sylwadau bod y model a ddefnyddir drwy TAD yn gweithio i lawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus lle y gellir rheoli pryderon llif arian ond ei fod yn llai deniadol (neu'n wir yn anymarferol) i

sefydliadau'r trydydd sector neu'r sector preifat. Canlyniad hyn yw bod y gwaith yn cael ei bwysoli'n sylweddol tuag at brosiectau sy'n cael eu harwain a'u cyflawni gan sefydliadau sector cyhoeddus. Pe byddai awydd yn y dyfodol i amrywio proffil sefydliadau a gefnogir drwy raglenni ariannu tebyg, gallai fod yn fanteisiol sicrhau bod rhywfaint o arian datblygu cychwynnol ar gael i dalu am wariant yn ystod cyfnodau cynllunio cychwynnol.

Rhagolwg

Nodir y camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad, ynghyd â therfynau amser bras, isod. Mae'r rhain yn gofyn addasu rhywfaint ar y fethodoleg wreiddiol, a chaiff hwn ei gadarnhau gan Grŵp Llywio'r gwerthusiad.

Tabl 7.1 Camau nesaf yn y gwerthusiad

Tasg	Amserlen ddangosol
Cytuno ar fframwaith traweffaith ar gyfer effeithiau TAD ehangach, gan flaenoriaethu meysydd yn ôl yr angen.	Medi-Hydref 2019
Nodi pa draweffeithiau y gellir dangos tystiolaeth yn eu cylch drwy drefniadau monitro a chasglu data sy'n bodoli eisoes.	Medi-Hydref 2019
Datblygu/cynghori buddiolwyr ar y cyd ar offerynnau casglu data eraill y gellid eu defnyddio i lenwi bylchau cyn rownd derfynol gwaith maes yn 2020.	Hydref 2019-Ionawr 2020
Cyfarfod cychwynnol cam terfynol y gwerthusiad gyda Grŵp Llywio'r gwerthusiad	Mehefin 2020
Adolygiadau parhaus o adroddiadau monitro y gweithrediad	Ledled
Gwaith maes terfynol gyda buddiolwyr ar y cyd a rhanddeiliaid	Medi-Tachwedd 2020
Adroddiad gwerthuso terfynol drafft	Ionawr 2021
Adroddiad gwerthuso terfynol	Mawrth 2021

Cyfeiriadau

Munday, M., Jones, C. a Roche, N. (Uned Ymchwil economi Cymru) (2016) *effaith economaidd y rhaglen Amgylchedd ar gyfer twf (E4G)*

Llywodraeth Cymru (2013a) *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: fframwaith adfywio newydd*

Llywodraeth Cymru (2013b) *Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020: Partneriaeth ar gyfer twf*

Llywodraeth Cymru (2013c) *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith*

Llywodraeth Cymru (2014a) *Rhaglen weithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop*

Llywodraeth Cymru (2014b) *Rhaglenni cronfeydd strwythurol yr UE 2014 i 2020: Rhaglenni gweithredol*

Llywodraeth Cymru (2016a) *Partneriaeth ar gyfer Twf: strategaeth ar gyfer twristiaeth 2013-2020: Adolygiad o gynnydd y strategaeth*

Llywodraeth Cymru (2016b) *Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS): Nodyn cyfarwyddyd*

Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg*

Llywodraeth Cymru (2018) *Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr: 2017*

Llywodraeth Cymru (2019) *Perfformiad twristiaeth Cymru: Ionawr i Fawrth 2019*

Deddfwriaeth

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015.](#)

Dogfennau eraill heb eu cyhoeddi a adolygwyd

Croeso Cymru (Mehefin 2016), cynllun busnes cyrchfannau atyniad twristiaeth (fersiwn 6)

Cynlluniau Busnes buddiolwyr ar y cyd

Gwybodaeth monitro y gweithrediad: ffurflenni monitro chwarterol a data allbwn o'r prosiectau a gwblhawyd gan Croeso Cymru

Atodiad A: Offerynnau ymchwil y gwerthusiad interim

GWERTHUSIAD INTERIM: CYFWELIADAU GYDA BUDDIOLWYR AR Y CYD A PHARTNERIAID CYFLENWI LLEOL

A. Cyflwyniad

- Esbonio bod y cyfweiliad yn rhan o'r cam gwerthuso interim ac y bydd yn bwydo i mewn i adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn 2019.
- Bydd yr adroddiad gwerthuso interim yn darparu asesiad cychwynnol o weithrediad TAD, gan gynnwys adrannau ar:
 - y cyd-destun strategol a pholisi y mae'r gweithrediad yn rhan ohono;
 - dyluniad a rheolaeth y gweithrediad yn gyffredinol;
 - trefniadau cyflawni a chraffu;
 - a gweithrediad prosiect-benodol, gan ddefnyddio'r data llinell sylfaen sydd ar gael ar lefel buddiolwyr ar y cyd.
- Gwerthusiad o'r gweithrediad yn ei gyfanrwydd yw'r astudiaeth ac nid prosiectau unigol.
- Esbonio'r amserlen ar gyfer y gwerthusiad-bydd yn cydreddeg â'r gwaith o gwblhau'r gweithrediad a chyflwynir adroddiad gwerthuso terfynol yn gynnar yn 2021.
- Atgoffwch y gallant gynnal y cyfweiliad yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r gwerthusiad hwn yn cael ei gadw ar ffurf ddienw. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yn cael ei dileu. Bydd Arad Research yn defnyddio'r data i lunio adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol. Mae gwybodaeth bellach am breifatrwydd a sut rydym yn defnyddio eich data ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd (ymchwilydd i sicrhau bod copi ar gael).

B. CYNNYDD O RAN GWEITHREDU'R PROSIECT

2. Rhwch ddiweddariad ar eich prosiect, gan nodi datblygiadau allweddol yn ystod y 6 mis diwethaf.
 - Beth yw cyflawniadau/allbynnau allweddol eich prosiect hyd yma?
 - Beth yw'r prif gerrig milltir ar gyfer eich prosiect yn ystod y flwyddyn sydd i ddod?
 - A oes unrhyw newidiadau arwyddocaol wedi bod i'ch cynllun busnes prosiect?
 - A yw'r prosiect yn cael ei gyflawni yn ôl y bwriad? Os na, pa newidiadau sydd wedi'u cytuno a beth oedd y sail resymegol dros y newidiadau hyn?
3. Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw heriau wrth gyflawni'r prosiect?
 - Os felly, beth fu natur y sialensiau hyn?
 - A ydynt wedi bod yn heriau sy'n gysylltiedig â'r prosiect neu wedi'u cysylltu â gweithrediad TAD yn ehangach?
4. Pa mor effeithiol y mae'r cydweithio gyda buddiolwyr partner/partneriaid darparu eraill wedi bod hyd yn hyn?
 - Beth sydd wedi gweithio'n dda o ran sicrhau ymgysylltiad lleol ymhlith rhanddeiliaid eraill, busnesau, y cyhoedd? Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw rwystrau?

5. [Cwestiwn ar gyfer partneriaid cyflawni/buddiolwyr partner lle y bo'n briodol] Beth fu eich rhan yn y gwaith o gefnogi'r prosiect?
- A gynlluniwyd i'ch cynnwys o'r prosiect ddechrau?
 - Ydych chi wedi bod yn rhan o'r cynllun gwreiddiol?
 - Beth sydd wedi gweithio'n dda o ran cydweithio drwy'r prosiect? Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw heriau?

C. EFFEITHIAU DISGWYLIEDIG A DEALLUSRWYDD AR LEFEL PROSIECT

6. Beth ydych chi'n ei ragweld fydd effaith eich prosiect?
- Sut y byddai llwyddiant yn edrych?
 - Pa effeithiau ydych chi'n rhagweld y bydd y prosiect yn eu cael?
 - Ar y safle? Ar eich sefydliad?
 - Ar bartneriaid cyflawni eraill?
 - Ar brofiad ymwelwyr a'r arlwy twristiaeth yn eich cyrchfan?
 - Ar y gymuned leol?
 - Ar fusnesau lleol?
 - Ar gyflogaeth yn yr ardal leol?

[Lle mae data wedi'i rannu ymlaen llaw, cyfwelydd i ddiolch i JB am rannu data a thrafod materion penodol sy'n codi.]

7. Mae gweithrediad TAD yn cefnogi amcanion yr ERDF o dan flaenoriaeth 4.4, sef cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith wedi'i flaenoriaethu neu'n rhanbarthol. I ba raddau y mae'r ffocws ar gynyddu cyflogaeth yn ganolbwynt eich prosiect?
- Esboniwch sut mae dyluniad eich prosiect yn adlewyrchu hyn yr amcan strategol i gynyddu cyflogaeth yn y seilwaith rhanbarthol â blaenoriaeth.
8. Dangosyddion perfformiad WEFO ar gyfer y rhaglen yw: tir a ddatblygwyd; safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd; swyddi y darparwyd ar eu cyfer; BBaChau y darparwyd ar eu cyfer.
- Beth yw eich barn ar ba mor addas yw'r dangosyddion hyn ar gyfer y rhaglen hon?
9. A yw'r trefniadau casglu data sydd gennych ar waith yn eich galluogi i fesur cynnydd yn erbyn amcanion y prosiect yn effeithiol?
- A oes unrhyw fylchau yn y data yr ydych yn ymwybodol ohonynt?
 - Beth yw'r problemau a'r heriau yn y data a gesglir?
10. A yw'r prosiect wedi gallu gwario yn unol â'r disgwyliadau gwreiddiol?
- Os bu oedi, pa ffactorau sydd wedi effeithio ar yr oedi hwn mewn gwariant?
 - Os yw'n berthnasol, pa elfennau o wariant y prosiect sydd wedi'u hoedi (cyfalaf/refeniw)?
 - Pa effaith, os o gwbl, y mae hyn wedi'i chael ar gyflawni'r prosiect yn gyffredinol?
11. Beth yw'r tebygrwydd y byddai'r prosiect wedi cael ei wireddu heb gyllid yr ERDF?
- A fyddai graddfa'r prosiect wedi bod yn wahanol?
 - Pa heriau fydddech chi wedi'u hwynebu wrth gyflawni'r gwaith heb gyllid ERDF?

D. RHEOLI A LLYWODRAETHU RHAGLENNI A PROSIECTAU

12. Beth yw eich barn am reolaeth rhaglen TAD?

- Yn benodol, a oes gennych unrhyw farn ychwanegol am rolau VW/WEFO wrth gefnogi gwaith rheoli rhaglenni a chraffu?

E. TREFNIADAU ADOLYGU, CEFNOGI A MONITRO

13. Beth yw eich barn am y trefniadau sydd ar waith ar lefel rhaglen i adolygu cynnydd?

- Pa mor effeithiol yw'r prosesau monitro a roddwyd ar waith?
- A ydych yn ei chael yn ddigon hawdd i gasglu data monitro (a oes digon o gymorth wedi'i ddarparu)?

14. Pa mor effeithiol yw'r cymorth sydd ar gael i'ch prosiect gan dîm ehangach rhaglen Croeso?

- A oes unrhyw elfennau penodol o'r cymorth sydd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol, neu'n llai defnyddiol?
- A oes digon o herio a chraffu ar waith?

F. CYDWEDDU STRATEGOL

15. Beth yw eich barn am y ffordd y mae'r gweithrediad yn fwy cyffredinol a'ch prosiect yn benodol wedi'u halinio'n â blaenoriaethau ehangach i'r economi ymwelwyr a'i datblygu?

- Beth ydych chi'n ei ddeall yw'r blaenoriaethau allweddol yn eich rhanbarth ac yn genedlaethol?
- A yw eich prosiect yn ategu neu'n cyd-fynd â rhaglenni a ffrydiau ariannu eraill? Os felly, sut?

16. A oes unrhyw newidiadau wedi bod i'r cyd-destun polisi neu strategol sydd wedi effeithio ar gyflawni eich prosiect? Os felly, sut?

G. THEMÂU TRAWSBYNCIOL

17. Sut mae'r prosiect yn ymgorffori'r themâu trawsbynciol canlynol yn y broses o'i roi ar waith:

- cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd;
- datblygu cynaliadwy; a
- Threchu tlodi ac allgau cymdeithasol?

18. A yw'r gweithgareddau hyn yn newydd?

- H.y. i ba raddau y mae'r rhaglen TAD wedi bod yn sbardun i'ch prosiect/sefydliad gynyddu neu wella ei waith mewn perthynas â'r meysydd sydd wedi'u cynnwys yn y themâu trawsbynciol?

19. Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw heriau o ran cefnogi neu ymgorffori themâu trawsbynciol yn eich prosiect?

H. CYMRAEG

20. I ba raddau y mae eich prosiect wedi darparu gweithgareddau i gefnogi strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru?

- Sut y caiff hyn ei fonitro a'i adrodd yn barhaus?

I. MEYSYDD I'W GWELLA: SYMUD YMLAEN

21. Wrth edrych ymlaen dros y 6-12 mis nesaf, beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer y prosiect?
22. Sut yr ydych yn bwriadu marchnata'r datblygiadau? Beth fyddai'r dulliau marchnata pwysicaf i ganolbwyntio arnynt?
23. A oes unrhyw feysydd lle y gellir gwella darpariaeth y gweithrediad neu brosiect? Os felly, a oes angen unrhyw gymorth neu arweiniad ychwanegol arnoch i alluogi'r gwelliannau hyn?

CYFWELIADAU GWERTHUSO INTERIM GYDA CHYNRYCHIOLWYR LLYWODRAETH CYMRU A RHANDDEILIAID STRATEGOL ERAILL

A. Cyflwyniad

- Esboniwyd fod y cyfweiliad yn rhan o'r cyfnod gwerthuso interim ac y bydd yn bwydo i mewn i adroddiad i'w gyflwyno i LIC ym mis Mehefin 2019.
- Bydd yr adroddiad gwerthuso interim yn darparu asesiad cychwynnol o gyflwyno gweithrediad TAD, gan gynnwys adrannau sy'n ymroddedig i:
 - y cyd-destun strategol a pholisi y mae'r gweithrediad yn rhan ohono;
 - dyluniad a rheolaeth y gweithrediad yn gyffredinol;
 - trefniadau cyflawni a chraffu;
 - a chyflwyno prosiect-benodol, gan ddefnyddio'r data sylfaenol sydd ar gael ar lefel buddiolwyr ar y cyd.
- Gwerthusiad o'r gweithrediad yn ei chyfanrwydd ac nid prosiectau unigol.
- Esbonio'r amserlen ar gyfer y gwerthusiad-bydd yn cydreddeg â'r gwaith o gyflawni'r gweithrediad a chyflwynir adroddiad gwerthuso terfynol yn gynnar yn 2021.
- Atgoffwch y gallant gynnal y cyfweiliad yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r gwerthusiad hwn yn cael ei gadw ar ffurf ddienw. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yn cael ei dileu. Bydd Arad Research yn defnyddio'r data i lunio adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol. Mae gwybodaeth bellach am breifatrwydd a sut rydym yn defnyddio eich data ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd (ymchwilydd i sicrhau bod copi ar gael).

B. GWEITHREDIAD TAD CYD-DESTUN A RHESYMEG

2. Beth oedd y cyd-destun polisi ar yr adeg y cafodd gweithrediad TAD ei gynllunio a'i ddatblygu i ddechrau?
 - Beth oedd y cyfleoedd a'r heriau oedd yn wynebu'r sector twristiaeth yng Nghymru?
 - Sut mae'r cyd-destun wedi newid ers hynny?
3. Beth oedd y rhesymeg dros weithrediad TAD?
 - Beth oedd y gweithrediad yn bwriadu ei gyflawni? I ba raddau y mae'r gweithrediad yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru?
 - Pa mor glir yr oedd nodau'r gweithrediad yn cael eu cyfathrebu ymhlith yr amryw bartneriaid strategol a gweithredol?
 - Mae gweithrediad TAD yn cefnogi amcanion yr ERDF o dan flaenoriaeth 4.4, sef cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith wedi'i flaenoriaethu neu'n rhanbarthol. I ba raddau y mae'r ffocws ar gynyddu cyflogaeth yn ganolbwynt i'r gweithrediad a'r prosiectau unigol a gefnogir?
 - Nod TAD yw sicrhau 'newid trawsnewidiol' yn arlwy twristiaeth Cymru. Beth ydych chi'n deall y mae hyn yn ei olygu? H.y. sut olwg fyddai ar 'newid trawsnewidiol'?

- I ba raddau y mae cysylltiadau clir rhwng nod y gweithrediad (h.y. cefnogi prosiectau twristiaeth strategol, wedi'u blaenoriaethu'n rhanbarthol, a fydd yn gwella ansawdd a chanfyddiad cyrchfannau yng Nghymru) ac amcanion strategol ERDF y disgwylir i'r gweithrediad gyfrannu tuag atynt?
4. Ble mae'r gweithrediad TAD yn eistedd yng nghyd-destun rhaglenni cymorth a strategaethau eraill i gefnogi twristiaeth yng Nghymru?
- Beth yw eich barn ar aliniad strategol y gweithrediad mewn perthynas â a) polisïau allweddol Llywodraeth Cymru a b) rhaglen ERDF Cymru yn fwy cyffredinol?
 - I ba raddau y mae TAD yn ychwanegu gwerth at raglenni eraill? Ym mha ffordd/ffyrdd y mae'r TAD yn unigryw? Beth mae TAD yn ei gyflawni – mewn cyd-destun strategol – sy'n unigryw neu'n wahanol i fentrau eraill yn y sector twristiaeth yng Nghymru?

C. CYNLLUN Y GWEITHREDIAD

5. Beth yw eich barn am nod cyffredinol y gweithrediad?
- Sut bydd yr ystod o brosiectau a ariennir drwy raglen TAD yn cefnogi'r nod hwn?
6. Beth yw'r rhesymeg dros fuddsoddi mewn safleoedd ar raddfa fawr, yn hytrach nag ymyriadau llai â mwy o ffocws?
7. I ba raddau y mae'r prosiectau a ariennir gyda'i gilydd yn cefnogi blaenoriaethau ehangach Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector?
8. A yw gweithrediad TAD yn ategu ac yn cyfrannu at strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru?
- Yn benodol, a yw'n cyfrannu at ffyniant i bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol? Os felly, sut?

D. RHEOLI'R GWEITHREDIAD

9. [Os yw'n berthnasol] Beth yw eich rôl yn y gwaith o reoli'r gweithrediad?
10. Beth yw eich barn ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli'r gweithrediad?
- Beth sydd wedi gweithio'n dda yn eich profiad chi?
 - A oes unrhyw agweddau ar reoli'r gweithrediad y gellid eu gwella yn eich barn chi?
 - Pa mor effeithiol y rheolwyd ac y cefnogwyd buddiolwyr ar y cyd er mwyn sicrhau bod yr ymrwymadau a nodir yn y cynlluniau busnes yn cael eu cyflawni?
11. A ydych yn chwarae rhan yn y gwaith o fonitro a chraffu ar ganlyniadau'r gweithrediad? Os felly, beth yw eich rôl a sut y mae hyn yn cyfrannu at gyflawni'r gweithrediad yn barhaus?

E. Marchnata

12. Pa ddull sy'n cael ei gymryd i farchnata'r gweithrediad – neu gefnogi marchnata prosiectau unigol?
- A oes unrhyw weithgareddau marchnata wedi'u cynnal hyd yn hyn? Os felly, beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth y gellid ei wella?
 - Beth yw'r cynlluniau marchnata ar gyfer y dyfodol? Pa mor effeithiol y mae trafodaethau'n mynd rhagddynt a beth yw'r dulliau marchnata allweddol sy'n cael eu hystyried?

F. YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU Â BUDDIOLWYR AR Y CYD [LLE BO'N BERTHNASOL I GYFWELEION]

13. Beth yw eich barn ar y dulliau o ymgysylltu a chyfathrebu â buddiolwyr ar y cyd yn ystod y gweithrediad hyd yma?
- Beth sydd wedi gweithio'n dda?
 - A oes unrhyw ffyrdd y gellid gwella'r cydweithio a'r cyfathrebu gyda buddiolwyr ar y cyd a phartneriaid eraill?
14. Yn eich barn chi, beth yw'r heriau parhaus y gall buddiolwyr ar y cyd eu hwynebu?

G. MAE CIPIO DEILLIANNAU AC EFFAITH Y GWEITHREDIAD

15. Dangosyddion perfformiad WEFO ar gyfer y gweithrediad yw: tir a ddatblygwyd; safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd; swyddi y darparwyd ar eu cyfer; BBaChau y darparwyd ar eu cyfer.
- Beth yw eich barn ar ba mor addas yw'r dangosyddion hyn ar gyfer y gweithrediad?
- A rannwyd dangosyddion y gweithrediad hyn â chi? Oeddech chi'n ymwybodol ohonyn nhw o'r blaen?
16. Beth yw'r canlyniadau ehangach yr ydych yn gobeithio/disgwyl eu gweld drwy weithrediad TAD?
17. Pa ddata sydd ar gael i gefnogi'r gwerthusiad?

H. THEMÂU TRAWSBYNCIOL

18. Amlinellwch sut y mae'r gweithrediad yn mynd i'r afael â thema drawsbynciol ERDF, sef cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd.
- Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i gyfle cyfartal i bobl anabl, gan gynnwys hygyrchedd?
 - Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i ddarparu cymorth (yn arbennig cyflogaeth) i grwpiau gwarchodedig, megis menywod a phobl ifanc?

19. Amlinellwch sut y mae'r gweithrediad yn mynd i'r afael â thema drawsbynciol datblygu cynaliadwy ERDF.

- Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i faterion trafnidiaeth?
- A yw rôl 'pencampwr' datblygu cynaliadwy wedi'i chreu?
- Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i gadwyni cyflenwi/caffael lleol?
- Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i effeithlonrwydd ynni?
- Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i ardaloedd gwarchodedig?

1.

20. Amlinellwch sut y mae'r gweithrediad yn mynd i'r afael â thema drawsbynciol ERDF trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol.

- Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i sicrhau mynediad i gyflogaeth ar gyfer y rhai mewn ardaloedd difreintiedig neu sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth?

21. A oes angen i fuddiolwyr ar y cyd adrodd ar eu cynnydd a'u canlyniadau o ran ymgorffori'r themâu trawsbynciol yn eu gwaith o gyflawni prosiectau? Os felly, sut?

- Beth yw'r mesurau llwyddiant sy'n gysylltiedig â themâu trawsbynciol ar gyfer gweithrediad TAD?

I. Cymraeg

22. Sut y cafodd y Gymraeg ei hystyried wrth gynllunio'r gweithrediad?

- I ba raddau y mae'r prosiectau TAD a'r gweithrediad cyfan wedi cefnogi strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru hyd yn hyn?
- Sut mae'r yn cefnogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg? A yw'r gweithrediad yn creu amodau ffafriol i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg?
- Sut y caiff hyn ei fonitro a'i adrodd yn barhaus?

J. CWESTIYNAU ERAILL

23. A oes gennych unrhyw gwestiynau neu faterion ar gyfer y tîm gwerthuso?

24. A oes unrhyw bolisi diweddar neu ddatblygiadau eraill y dylai'r gwerthusiad eu hystyried yn ystod camau cynnar yr ymchwil?

Atodiad B: Crynodebau prosiectau unigol TAD

Glannau Bae Colwyn

Arweinydd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae strategaeth Glannau Bae Colwyn yn rhan annatod o raglen adfywio strategol y Bae, sy'n werth £100m, a bydd y prosiect yn cyflawni gwelliannau ar hyd 980 metr pellach o'r promenâd, gan barhau â'r gwelliannau o gam 1 y gweithrediad a gwblhawyd yn ddiweddar (a ariennir drwy gyllid Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid), a oedd yn cynnwys Porth Eirias a'r traeth newydd.

Bydd y prosiect hwn yn darparu gofod cyhoeddus newydd o ansawdd uchel ac yn cyflwyno gweithgarwch newydd a phwyntiau diddordeb ar hyd y promenâd i'r gorllewin o Gam 1, gan wella Bae Colwyn fel cyrchfan allweddol i ymwelwyr yng Ngogledd Cymru a darparu gwell amwynder lleol. Bydd creu ciosg ychwanegol 100m² a lle ar gyfer 3 consesiwn tymhorol ychwanegol fel rhan o'r cynllun yn darparu cyfleoedd busnes a chyflogaeth ychwanegol yn ogystal â rhagor o gyfleusterau i ymwelwyr a mwy o wariant yn yr ardal.



Dyddiad dechrau: Mehefin 2016
Dyddiad gorffen: Medi 2018



Cyfanswm costau'r prosiect: £3,833,709
Buddsoddiad TAD/ERDF: £1,513,072

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn (data dros dro)
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	-	-
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	3	4
Tir a ddatblygwyd	1.5 ha	1.5 ha
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	120m ²	80m ²
Dangosyddion ychwanegol		
Nifer ymwelwyr ychwanegol	15,000	Anhysbys
Swyddi a grëwyd	6	6

Cynnydd y prosiect

Mae ail gam datblygiad y Glannau (y cam y mae TAD wedi'i ariannu) wedi'i gwblhau, ar wahân i orffen cyfrifon. Cwblhawyd Cam 1 (traeth a Phorth Eirias) ar ddiwedd 2014, felly dechreuodd y cynllun ar gyfer cam 2 tua'r un pryd. Aeth tîm y prosiect allan i ymgynghoriad cyhoeddus a chytuno ar gamau dylunio gyda cherrig milltir penodol. Cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb fasnachol i adnabod y ffordd orau i sefydlu gofod busnes ar y promenâd. Cefnogodd myfyrwyr ail flwyddyn Prifysgol Glyndŵr ddyluniad adeilad y consesiynau, gyda dyluniad un myfyriwr yn cael ei gomisiynu ar gyfer y datblygiad. Felly, mae'r promenâd bellach wedi'i wella, ei ymestyn, ei godi, mae ei ddiogelwch wedi gwella a'i wneud yn fwy cyfeillgar i ymwelwyr. Mae hyn wedi cynnwys datblygu wal

ddringo, caffi a seddi. Elfen allweddol o'r prosiect oedd uno dulliau twristiaeth ac amddiffyn yr arfordir. Roedd y broses o ddatblygu'r promenâd yn cynnwys amddiffynfa arfordirol fel ystyriaeth graidd e.e. codi'r promenâd a'r ffordd a defnyddio meinciau fel rhwystrau môr ychwanegol.

Antur Cymoedd Cymru

Arweinydd: Rock UK Adventure Centres Ltd

Mae'r prosiect yn cynnwys datblygu cyfleuster rhanbarthol dringo antur preswyl sy'n targedu marchnadoedd ar draws De Cymru a Chanolbarth Lloegr ar gyrion Merthyr Tudful. Nod y prosiect yw datblygu'n ganolfan gweithgareddau awyr agored ranbarthol ar gyfer De ddwyrain Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill a busnesau gweithgareddau gan gynnwys Parc Beicio Coetir Gethin a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n golygu ymestyn ac adnewyddu hen adeilad y lofa, gan ei droi'n gyfleuster hamdden modern a chroesawgar – gan gynnwys caffi newydd, man chwarae awyr agored a gweithgareddau awyr agored ychwanegol, gyda llety en-suite ar gyfer 100 o westeion preswyl. Mae'r prosiect yn cefnogi agenda twristiaeth a hamdden strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; "Cyrchfan Merthyr".



Dyddiad dechrau: Hydref 2016
Dyddiad gorffen: Mehefin 2018



Cyfanswm costau'r prosiect: £4,738,288
Buddsoddiad TAD/ERDF: £2,543,000

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	55	55
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	1	1
Tir a ddatblygwyd	2.4 ha	2.4 ha
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	2990m ²	2990m ²
Dangosyddion ychwanegol		
Nifer yr ymwelwyr	11,400	Anhysbys
Gradd sêr Croeso Cymru	4	Anhysbys

Cynnydd y prosiect

Mae gan Rock UK brydles tymor hir ar gyfer y Ganolfan gan Ymddiriedolaeth Datblygu Taf Bargoed. Mae'r adeilad wedi'i gwblhau ac mae'r prosiect yn gwbl weithredol yn amodol ar rai diwygiadau bach terfynol. Mae'r gampfa wedi'i gyfarparu'n llawn ond bydd yn agor yn 2020 unwaith y mae gan y tîm rheoli ddigon o gapasiti. Gorweddodd y cam adeiladu o 3 mis gan gostio ychydig yn fwy na'r gyllideb wreiddiol. Croeso Cymru sydd wedi talu'r hawliad terfynol. Gallai'r adeiladwaith fod wedi bod yn gynt ac yn rhatach, ond gwnaeth Rock UK benderfyniad corfforaethol i gadw'r wal ddringo ar agor drwy gydol y broses adeiladu i wrthweithio niwed posibl i'w henw da.

Mae'r golled i masnach ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn fwy na'r disgwyl ond mae archebion ymlaen llaw yn awgrymu bod y Ganolfan yn dal ar y trywydd iawn i fantoli'r bwlch hyd yn oed yn y 3^{ydd} blwyddyn. Mae Rock UK yn gweld cynnydd graddol yn nifer yr archebion preswyl sy'n allweddol i gynaliadwyedd. Mae'r ganolfan newydd gofnodi ei diwrnod prysuraf erioed o ran grwpiau preswyl. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar ddod o hyd i farchnadoedd newydd ar gyfer preswyl ar benwythnosau/gwyliau ysgol a mwy o fusnes hamdden lleol. Mae enw da'r ganolfan yn gryf gyda sefydliadau gweithgareddau a dringo. Mae rhwystrau o hyd i ymgysylltu â'r gymuned leol o ran defnydd achlysurol.

Cyrchfan denu twristiaid Glannau Caernarfon

Arweinydd: Cyngor Gwynedd

Nod y prosiect yw defnyddio asedau diwylliannol a hanesyddol Caernarfon gan gynnwys y Castell treftadaeth byd a'r cyffiniau hanesyddol; celfyddydau creadigol cynhenid cryf/diwydiant; y porth i Eryri; tref harbwr ag iddi lannau unigryw a hanesyddol; cysylltu atyniadau allweddol fel Rheilffordd Ucheldir Cymru a llwybr arfordir Cymru. Bydd prosiect Caernarfon yn gwireddu manteision economaidd pendant yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol drwy ddarparu swyddi a thwf cynaliadwy yng Nghaernarfon. Mae'n cynnwys dau becyn gwaith allweddol a ariennir drwy'r gweithrediad ERDF;

- Pecyn gwaith 1: Terfynfa Rheilffordd Ucheldir Cymru. Datblygu cyfleusterau gorsaf/terfynfa newydd ar gyfer rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru sy'n enwog yn rhyngwladol o fewn ardal y Cei Llechi.
- Pecyn gwaith 2: Canolfan Menter Greadigol Galeri. Gwella Canolfan Menter Greadigol Galeri wedi'i lleoli ar Doc Fictoria.



Dyddiad dechrau: Mawrth 2016
Dyddiad gorffen: Medi 2018



Cyfanswm costau'r prosiect: £6,670,520
Buddsoddiad TAD/ERDF: £2,454,243

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn (data dros dro: Galeri yn unig)
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	13 FTE	6
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	4	3
Tir a ddatblygwyd	0.26 ha	0.05 ha
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	1, 186m ²	629m ²
Dangosyddion ychwanegol		
Cyfanswm nifer yr ymwelwyr	26,750	Anhysbys

Cynnydd y prosiect

Mae **gorsaf Rheilffordd Ucheldir Cymru** yng Nghaernarfon wedi'i chwblhau, er ei fod yn brosiect cymhleth. Datgelodd gwaith cloddio fod angen symud pibellau carthffosaeth a gweithio o amgylch prif bibellau nwy a ddarganfuwyd o dan y safle. Cynhaliwyd 'agoriad meddal' yr orsaf ar ddechrau Ebrill 2019. Ceisiodd y Rheilffordd gyflogi cymaint o bobl leol â phosibl â sgiliau iaith Gymraeg, a chyflogi rheolwr gorsaf profiadol i sicrhau y gallai'r orsaf newydd redeg yn esmwyth. Mae terfynfa'r rheilffordd wedi'i datblygu i gynnwys caffi, siop a lle ar gyfer digwyddiadau/arddangosfeydd. Maent yn bwriadu cynnig llogi'r prif ofod ar gyfer digwyddiadau/arddangosfeydd yn breifat; mae diddordeb yn y gofod eisoes. Mae'r gwelliant i **Galeri** wedi'i gwblhau yn ôl y cynlluniau gwreiddiol. Mae aelod newydd o staff wedi bod yn cynnal rhaglen o weithgareddau crefft ar gyfer ymwelwyr (plant, ysgolion ac ati) gan ddefnyddio'r gofod crefftau newydd. Crëwyd swyddi (gan gynnwys 2/3 o staff gwasanaeth cwsmeriaid newydd, 1 technegydd, 1 ar gyfer marchnata digidol). Mae Galeri wedi ymateb i'r angen i gyflogi staff ychwanegol i ddelio â'r niferoedd uwch o bobl sy'n ymweld â'r lleoliad, sy'n gysylltiedig â'r cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr i'r sinema. Mae yna ymwelwyr drwy'r flwyddyn yn awr, felly mae'r patrwm yn llai tymhorol. Mae TAD wedi cael effaith uniongyrchol o ran lleihau effeithiau tymhorol, gyda nifer uwch o ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn yn cryfhau sefyllfa ariannol y lleoliad ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r uwch dîm arwain allu cynllunio ymlaen yn strategol.

Triongl Antur Camlas Sir Fynwy & Aberhonddu

Arwain: Cyngor Sir Torfaen a Bwrdeistref Sirol Caerffili

Bydd prosiect triongl antur camlas M & B yn datblygu gweithgareddau hamdden awyr agored, twristiaeth a hamdden ar hyd y gamlas yn Nhorfaen a Chaerffili ac yn cysylltu ardal ucheldirol Mynydd Maen. Bydd y gyrchfan yn ffurfio 'triongl Antur' sy'n ffinio'r gamlas a A472 Heol Crymlyn i Pont-y-pŵl. Mae'r prosiect yn cynnwys 16 o becynnau gwaith, gan gynnwys datblygu cyfleusterau i ymwelwyr, gwella mynediad, seilwaith beicio a cherdded, ac adfer a gwella strwythur hanesyddol y gamlas.

Cynigir rhaglen o fuddsoddiadau ategol mewn canolfannau seilwaith ac ymwelwyr ar hyd coridor y gamlas i ddatblygu ei chynnig fel gyrchfan ac adnodd pwysig ar gyfer hamdden awyr agored a thwristiaeth yn ne-ddwyrain Cymru. Bydd y prosiect yn cael ei weithredu gan bartneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Torfaen (arweinydd), Cyngor Caerffili, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, ac Ymddiriedolaeth Camlesi Sir Fynwy, Aberhonddu a'r Fenni.



Dyddiad dechrau:

Hydref 2018

Dyddiad gorffen:

Rhagfyr 2020



Cyfanswm costau'r prosiect:

£4,674,779

Buddsoddiad TAD/ERDF:

£2,000,000

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	7	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	2	
Tir a ddatblygwyd	19.3 ha	
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	364m ²	
Dangosyddion ychwanegol		
Nifer yr ymwelwyr	30,000	

Cynnydd y prosiect

Er gwaethaf peth oedi a heriau sy'n gysylltiedig â chaffael, arian cyfatebol, ystyriaethau technegol a chapasiti, mae nifer o'r ffrydiau gwaith ar y safle, er enghraifft y Ganolfan llety ac antur yng Nghwmcarn. Y prosiect yw'r unig un sy'n cael ei reoli ar y cyd gan ddau awdurdod lleol ac mae'r prosiect wedi creu gwaith partneriaeth rhagorol.

Mewn rhai ffyrdd, mae'r ffrydiau gwaith yn cael eu cyflawni fel prosiectau annibynnol ond maent i gyd yn dod o dan thema'r triogl antur. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio hyn ar gyfer brandio a marchnata yn y dyfodol. Yn ogystal â darparu allbynnau craidd, rhagwelir y bydd y prosiect yn darparu nifer o ganlyniadau meddalach sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles, gwirfoddoli ac ati.

Parc a Chanolfan Gweithgareddau Llys y Frân

Arweinydd: Dŵr Cymru Welsh Water

Bydd y prosiect yn ail-egnïo pysgodfa Parc Gwledig Llys y Frân i fod yn gyrchfan eiconig i dwristiaid ar gyfer De-orllewin Cymru a'r DU wrth iddi gael ei datblygu'n weithgarwch awyr agored â thema dŵr ac yn safle hamdden addysgol. Mae'r prosiect yn cynnwys adeiladu canolfan chwaraeon dŵr, caban, adnewyddu'r ganolfan ymwelwyr a datblygu parc sgiliau pymphiau beicio. Mae Cam 2 yn ymwneud â uwch-raddio'r trac beiciau o amgylch y gronfa ddŵr.



Dyddiad dechrau:

Hydref 2018

Dyddiad gorffen:

Rhagfyr 2020 (estyniad o 6 mis)



Cyfanswm costau'r prosiect:

£2,830,001

Buddsoddiad TAD/ERDF:

£1,700,000

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	9	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer		
Tir a ddatblygwyd		
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	535m ² 335m ²	
Dangosyddion ychwanegol		
Nifer yr ymwelwyr	200,000	
Swyddi anuniongyrchol	5	

Cynnydd y prosiect

Er i'r prosiect gael ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2018, bu oedi wrth lofnodi'r contract a achoswyd gan yr oedi o ran sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect. Dechreuodd y Contractwr ar y safle ym mis Ionawr 2019 ond yn anffodus mae bellach wedi mynd i weinyddiaeth, sy'n cael effaith fawr ar gyflawni prosiectau. Cytunwyd bellach ar estyniad o 6 mis gyda Croeso Cymru ac mae Dŵr Cymru wrthi'n asesu opsiynau caffael ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r prosiect wedi tynnu unrhyw arian i lawr oddi wrth WEFO.

Mae Llŷs y Fran yn rhan o bortffolio o safleoedd yng Nghymru y mae Dŵr Cymru yn anelu at wella'r cynnyrch a'r profiad i ymwelwyr gan ddefnyddio gweithgaredd antur fel thema graidd. Un o sbardunau pwysig y prosiect yw cynhyrchu digon o refferiw i wneud y cyfleuster yn niwtral o ran cost.

Mae'r prosiect wedi sicrhau cefnogaeth a mewnbwn da gan randdeiliaid, gan gynnwys Cyngor Sir Benfro a Planed.

Glannau Porthcawl (PRIF)

Arweinydd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr

Pecyn o brosiectau sy'n canolbwyntio ar chwaraeon dŵr, glan y môr, cysylltedd ac adnewyddu canol tref i gyflwyno Porthcawl fel cyrchfan gydlynol, gyfoes. Mae pecynnau gwaith yn cynnwys:

- Canolfan chwaraeon dŵr a chaffi
- Cyfleuster gwella Harbwr
- Cysylltedd
- Marchnata a digwyddiadau



Dyddiad dechrau: Ebrill 2016
Dyddiad gorffen: Rhagfyr 2020



Cyfanswm costau'r prosiect: £2,555,001
Buddsoddiad TAD/ERDF: £1,565,941

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	17	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	3	
Tir a ddatblygwyd		
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	444m ²	
Dangosyddion ychwanegol		
Nifer yr ymwelwyr	21,000	
Swyddi anuniongyrchol	40	

Cynnydd y prosiect

Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran cyflawni cydrannau cyfalaf y prosiect. Cwblhawyd y llwybr beicio y llynedd; adnewyddwyd ciosg yr Harbwr sydd bellach wedi'i feddiannu ac mae canolfan chwaraeon dŵr Rest Bay ar y safle ar hyn o bryd ac yn symud yn ei blaen. Mae rhaglen newydd o ddigwyddiadau yn cael ei llunio: y digwyddiad mawr cyntaf fydd cynnal 10k Porthcawl ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r contract ar gyfer elfen farchnata'r prosiect ar fin cael ei osod.

Mae'r prosiect eisoes yn cyflawni newid gyda pheth tystiolaeth o gynnydd yn y diddordeb gan fuddsoddwyr yn y dref. Gobeithir y bydd y buddsoddiad yn Rest Bay a'r Harbwr yn ysgogiad i drawsnewid yn sylweddol ar rai o'r safleoedd adfywio mwy yn y dref.

Mae rhywfaint o ailbroffilio'r gyllideb wedi digwydd gydag arian refeniw yn cael ei symud i gyfalaf i sicrhau bod y gwariant o fewn y gyllideb gyffredinol.

Mae'r bartneriaeth arfordirol wedi rhoi cyfeiriad strategol pwysig i'r prosiect yn ogystal â chynnwys y sector preifat yn y gwaith o'i gynllunio a'i ddarparu. Er bod y ganolfan forwrol yn elfen greiddiol o'r prif brosiect, mae buddiolwyr ar y cyd wedi cyfaddef mai cyfyngedig yw'r cydgysylltu a'r cydweithredu rhwng y ddau brosiect TAD yn y dref.

Y Ganolfan Forwrol, Porthcawl

Arweinydd: Elusen Credu Cyf

Datblygu'r Ganolfan Forwrol ar Gornel Glyd, gerllaw Harbwr Porthcawl. Bydd y Ganolfan yn cynnig atyniad sy'n canolbwyntio ar y teulu drwy gydol y flwyddyn gan arddangos treftadaeth forol Porthcawl gan gynnwys Canolfan Wyddoniaeth a darganfod ar yr arfordir, cyfleusterau lles, caffi a bwyty, llety grŵp a lle i gynnal digwyddiadau.



Dyddiad dechrau:

Rhagfyr 2016

Dyddiad gorffen:

Gorffennaf 2020



Cyfanswm costau'r prosiect: £5,571,400

Buddsoddiad TAD/ERDF: £2,134,060

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	55	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	7	
Tir a ddatblygwyd	0.3 ha	
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	3, 000m ²	
Dangosyddion ychwanegol		
Nifer yr ymwelwyr	80,000	
Swyddi anuniongyrchol	65	

Cynnydd y prosiect

Mae prosiect y Ganolfan Forwrol yn elfen greiddiol o PRIF (Rhaglen Buddsoddi Adfywio Porthcawl). Bu oedi o ran cwblhau'r prosiect oherwydd ail-ddylunio cynlluniau i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chostau a throsglwyddo tir o'r Cyngor i Credu. Er gwaethaf yr oedi, mae prosiect y Ganolfan Forwrol eisoes yn cyflawni rhai allbynnau mesuradwy (swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau) a gwelir ei fod yn ennyn diddordeb o'r newydd ym maes treftadaeth forol y dref. Mae Sea Quest a gwasanaethau morol yn gweithredu o'r safle ac yn darparu gwasanaethau cyn i'r ganolfan gael ei hadeiladu. Mae nifer o gwmnïau masnachu wedi cael eu sefydlu i gydlyn a gyrru ymlaen wahanol elfennau o'r prosiect (e.e. profiad Porthcawl.)

Rhoddwyd mecanweithiau effeithiol ar waith i ymgysylltu â'r gymuned leol a rhanddeiliaid allweddol wrth gynllunio a chyflawni'r prosiect.

Mae lle i gydweithio'n agosach rhwng y ganolfan forwrol a'r prosiect TAD Glan y môr a arweinir gan y Cyngor er y teimlir bod cefnogaeth TAD i'r ganolfan forwrol wedi bod yn 'allweddol' wrth adfywio ardal yr Harbwr.

Canolfan Arfordir Rhyngwladol Cymru

Arweinydd: Ymddiriedolaeth Porthladd Saundersfoot

Bydd Canolfan Arfordirol Ryngwladol Cymru yn cynnwys pedwar datblygiad cysylltiedig sy'n creu profiad unigryw o dwristiaeth arfordirol drwy gyfranogiad gweithredol a goddefol, gan gynnwys pob oedran a gallu, gan fynd i'r afael â'r cyfleoedd twristiaeth a gollir ar hyn o bryd o fewn y rhanbarth a sefydlu Saundersfoot fel lleoliad eiconig ar gyfer twristiaeth arfordirol morol yng Nghymru. Dyma'r pedwar datblygiad:

- Canolfan Rhagoriaeth Forol a Chanolfan Stormydd Arfordirol;
- Canolfan Treftadaeth a Chelfyddydau Ocean Square;
- Canolfan Sgwner Arfordirol; a
- Dec digwyddiadau cenedlaethol.



Dyddiad dechrau: Mawrth 2017
Dyddiad gorffen: Mawrth 2020



Cyfanswm costau'r prosiect: £9,000,928
Buddsoddiad TAD/ERDF: £4,000,000

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	91	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	31	
Tir a ddatblygwyd	0.7675 ha	
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	2, 375m ²	
Dangosyddion ychwanegol		
Nifer yr ymwelwyr	875,889	

Cynnydd y prosiect

Agorodd y dec digwyddiadau cenedlaethol yn Hydref 2018, gyda thrwydded ar gyfer cynhwysedd o 4000 o bobl. Bydd yn gweithredu fel gofod pob tywydd ac mae Ymddiriedolaeth y Porthladd eisoes wedi gweld llawer o ddiddordeb gan grwpiau sy'n dymuno defnyddio'r gofod. Mae cragen y Canolfan Rhagoriaeth Forol a Chanolfan Stormydd Arfordirol wedi'u hadeiladu ac mae Ymddiriedolaeth y Porthladd yn hyderus y caiff ei gwblhau o fewn yr amserlenni arfaethedig. Roedd yn rhaid iddynt wneud gwaith diogelwch cyn datblygu, e.e. i fodelu ymchwyddiadau storm. Bydd y datblygiad yn cynnwys bwyty 90 sedd (mae cogyddion nodedig wedi dangos diddordeb yn y lleoliad) a 10 uned arhosiad byr. Mae'r Ymddiriedolaeth ar fin mynd allan i dendr ar gyfer datblygu elfen y Ganolfan Stormydd Arfordirol, gan geisio creu canolfan ddehongli ryngweithiol. Maent wedi cael caniatâd cynllunio terfynol ar gyfer datblygu Canolfan Treftadaeth a Chelfyddydau ac mae pob ymgynghoriad wedi'i gwblhau. Bydd y datblygiad hwn yn fan mynediad cyhoeddus, agored a'u nod yw dechrau adeiladu ym mis Awst 2019 gydag amserlen 56 wythnos i'w cwblhau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn lliniaru ychydig o oedi yn y broses gynllunio ar gyfer y Ganolfan Treftadaeth a Chelfyddydau drwy fynd allan i dendro ar gyfer Canolfan Sgwner Arfordirol ar yr un pryd (dim ond ar gyfer y dylunio ac adeiladu, gan eu bod eisoes wedi cwblhau arolygon ac asesiadau).

Prosiect Twristiaeth Arfordirol Conwy - Venue Cymru

Arweinydd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Venue Cymru yw unig ganolfan theatr, cynadledda ac arddangosfa bwrpasol Cymru. Adeilad aml-dddefnydd ydyw sy'n cynnwys awditoriwm â 1500 o theatr sedd, arena 1550 m² sy'n medru darparu cyngherddau ar gyfer 2500 o noddwyr, gwledda ar gyfer 1000 ac arddangosfeydd mawr neu ddigwyddiadau chwaraeon. Mae gofod mawr arall ar gyfer 800 o bobl ac ystafell gynadledda ar gyfer 250 yn cael eu hategu gan 18 o fannau cyfarfod ar gyfer rhwng 10 a 150 o gynrychiolwyr ac ystod o fannau cyntedd a mannau chwarae.

Fel lleoliad a theatr rhanbarthol, mae Venue Cymru yn prysur cyrraedd pwynt lle mae'r galw yn fwy na'r capasiti, ac mae angen esblygu i gadw ei safle a chystadlu o fewn y sector. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy ail-gyflunio'r adeilad presennol gan ganiatáu gwell defnydd o'r gofod presennol i ddarparu ar gyfer y rhaglen amrywiol o sioeau a digwyddiadau; wrth wella ansawdd y cynnig bydd hwn yn denu mwy o ymwelwyr i ogledd Cymru a Venue Cymru, gan helpu i ymestyn y tymor ymwelwyr.



Dyddiad dechrau: Medi 2017
Dyddiad gorffen: Chwefror 2020



Cyfanswm costau'r prosiect: £2,791,642
Buddsoddiad TAD/ERDF: £832,262

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	0	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	0	
Tir a ddatblygwyd	0	
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	3777m ²	
Dangosyddion ychwanegol		
Swyddi newydd a grëwyd	5	
Niferoedd ymwelwyr ychwanegol	15,000	
Swyddi anuniongyrchol a grëwyd	60	

Cynnydd y prosiect

Mae Venue Cymru yn adrodd eu bod yn fras lle'r oeddent yn disgwyl bod. Cafwyd rhywfaint o oedi ar ddechrau'r cam adeiladu oherwydd problemau a wynebwyd yn ystod gwaith cloddio cynnar ar y safle. Ystyriaeth bwysig ar gyfer y prosiect oedd sut i gwblhau'r datblygiad heb effeithio'n negyddol ar y rhaglen o weithgareddau oedd yn cael eu cyflwyno yn y lleoliad. Roedd hyn yn golygu cynllunio'n fanwl gyda chontractwyr i amserlennu agweddau allweddol ar adeiladu o amgylch digwyddiadau. Mae hyn wedi'i reoli'n llwyddiannus hyd yma.

Mae gwella ansawdd cyfleusterau ffisegol yn ffocws allweddol i weithrediad TAD ac i'r prosiect hwn. Gwelwyd hyn ers peth amser fel maes sydd angen ei wella ac mae partneriaid y prosiect eisoes yn hyderus y bydd y broses o ddatblygu ac ad-drefnu gofod o fewn yr adeilad yn cael effaith sylweddol ar yr hyn y gall Venue Cymru ei gynnig o ran ansawdd a graddfa. Bydd datblygu mannau ail-wasanaethu yn ei gwneud yn haws i reoli a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau. Ni fydd llawer o'r datblygiad yn weladwy i'r cyhoedd nac i gleientiaid ond bydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r ffordd y caiff digwyddiadau eu cyflwyno a bydd yn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan Venue Cymru.

Mae contractwyr yn anelu at gael eu gorffen ar y safle erbyn Awst 2019. Mae rheolwr y prosiect yn dal yn ôl ar ôl gosod rhai elfennau technegol penodol ar gyfer caffael yn ddiweddarach. Mae'r prosiect yn rhedeg i gynllun.

Canolfan Ddiwylliannol Cyflymder ar Dir Pentywyn a Chyrchfan Eco

Arweinydd: Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae'r prosiect yn cynnwys datblygu cyrchfan i ymwelwyr o safon uchel dan do ac yn yr awyr agored a fydd yn anelu at gyfrannu at dreftadaeth Pentywyn a'i hasedau naturiol er mwyn datblygu'r gyrchfan yn y dyfodol a chefnogi adfywio economaidd fel cyrchfan lle mae ymwelwyr yn treulio'r diwrnod ac aros. Yn benodol, mae'r prosiect yn golygu creu cyfleuster newydd, cyntaf o'i fath sy'n atyniad modern a chyffrous i ymwelwyr i lan y môr. Bydd yr atyniad yn cynnwys tri phrosiect unigol ond cyd-gysylltiedig i gwrdd ag amcanion y datblygiad. Dyma'r prosiectau unigol a gaiff eu cynnwys yn y pecyn ariannu hwn:

- Canolfan Ymwelwyr Cyflymder y Tywod gyda thŵr eiconig;
- Cyrchfan Gwyliau Eco-Weithgaredd y Twyni; a
- Prosiect Gwella Profiad Ymwelwyr a Gwella Cyfleusterau.



Dyddiad dechrau: Medi 2017
Dyddiad gorffen: Hydref 2020



Cyfanswm costau'r prosiect: £7,027,875
Buddsoddiad TAD/ERDF: £3,000,000

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	60	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	4	
Tir a ddatblygwyd	1.97 ha	
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	1765m ²	
Dangosyddion ychwanegol		
Nifer yr ymwelwyr	41,400	
Swyddi anuniongyrchol a grëwyd	123	

Cynnydd y prosiect

Mae'r safle yn ffinio â thir y Weinidogaeth Amddiffyn, a brydlesir ar hyn o bryd i Qinetiq. Tybiwyd y byddai'r cynllun gwreiddiol ar gyfer Pentywyn yn trosglwyddo peth o'r tir hwn er mwyn caniatáu datblygiad mwy, e.e. 2 amgueddfa. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn, felly mae'r safle ychydig yn fwy cyfyngedig. Mae elfennau eraill o'r cynllun gwreiddiol wedi'u cwblhau e.e. creu ardal wedi'i thirlunio i'r dwyrain o'r brif ffordd ar dir blaenorol y Weinidogaeth Amddiffyn. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu cynnal cyfnewidiad tir gyda pharc gwyliau lleol er mwyn cael mwy o dir y traeth o dan berchnogaeth gyhoeddus.

Gohiriwyd y tendrau am 8 wythnos o'r cynllun gwreiddiol. Mae'r prif contract adeiladu yn mynd rhagddo ar gyfer yr amgueddfa, yr eco-hostel, yr ardd, y man chwarae ac ati. Fodd bynnag, mae'r broses hon wedi'i gohirio oherwydd darganfod asbestos o dan yr amgueddfa flaenorol a ddymchwelwyd. Disgwylir y bydd y contractiwr yn gallu gwneud yn iawn am yr amser a dylai adeilad yr amgueddfa fod ar gael ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r eco-hostel yn cael ei adeiladu i safonau

gwestai cyllideb ac nid oes gweithredwr yn cael ei nodi hyd yn hyn. Mae partneriaeth waith wedi'i sefydlu gyda'r Cyngor Cymunedol, sy'n cynnwys llawer o fusnesau Pentywyn.

Cyrchfan Twristiaeth Glannau Caernarfon – Castell Caernarfon

Arweinydd: Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae prosiect Castell Caernarfon yn ategu prosiect cyrchfan denu twristiaeth Glannau Caernarfon. Nod y prosiect yw cynyddu amser aros ymwelwyr ac arhosiadau tros nos gan gefnogi'r rhaglen adfywio strategol ehangach. Prif fynedfa Porth y Brenin fydd y canolbwynt, gan wella'r croeso i ymwelwyr drwy'r elfennau canlynol.

- Gwella mynediad i'r muriau uchaf (gan gynnwys ar gyfer unigolion sydd â phroblemau symudedd).
- Adnabod a datblygu profiadau dychmygus, rhyngweithiol.
- Darparu man byrbrydau a lluniaeth ysgafn.
- Mwy o le adwerthu o fewn ardal Twr Porth y Brenin
- Gwella'r ddarpariaeth toiledau presennol i ymwelwyr, gan ymestyn i gynnwys cyfleusterau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf.
- Cynnydd yn y maes staffio a gwella cyfleusterau.



Dyddiad dechrau: Medi 2016
Dyddiad gorffen: Rhagfyr 2020



Cyfanswm costau'r prosiect: £3,130,697
Buddsoddiad TAD/ERDF: £2,089,946

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	7.5	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer		
Tir a ddatblygwyd		
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	300m	
Dangosyddion ychwanegol		
Swyddi a ddiogelwyd	6	
Cyfanswm nifer yr ymwelwyr	15,000	

Cynnydd y prosiect

Nid oes unrhyw weithgaredd adeiladu wedi dechrau eto. Mae'r prosiect wedi wynebu heriau disgwylledig sy'n gysylltiedig ag uwchraddio adeiladau rhestredig a henebion. Roeddent wedi nodi gwendidau allweddol yr oedd angen mynd i'r afael â hwy drwy'r prosiect e.e. cyfleusterau a lle ar gyfer staff, dim lle ar gyfer bwyd neu ddiod a materion hygyrchedd. Cynhaliwyd arfarniad opsiynau a phenderfynwyd gwneud gwelliannau mewn un lleoliad penodol o fewn y Castell. Fodd bynnag, mae cynllun rheoli ar waith (gan fod y Castell yn safle treftadaeth y byd gan UNESCO) ac roedd pryder y byddai'r prosiect yn mynd yn groes i'r cynllun rheoli hwn, gan gael effaith negyddol ar naws y

Castell. Penderfynwyd y byddai addasu Porth y Brenin yn tanseilio rhai rhinweddau allweddol sy'n gysylltiedig â bod yn Safle Treftadaeth y Byd. O'r herwydd, y cynllun ar hyn o bryd yw y bydd y caffi wedi'i leoli uwchben y siop. Derbyniwyd y dyluniad tua chanol 2018 ac maent yn bwriadu cyflwyno cais ym Medi 2019 am ganiatâd gan UNESCO.

Porth Ymwelwyr Rhyngwladol Ynys Gybi

Arweinydd: Cyngor Sir Ynys Môn

Mae prosiect Porth Ymwelwyr Ynys Gybi yn cynnwys tri cham gwaith integredig, sy'n canolbwyntio ar y croeso cychwynnol a chreu argraff gyntaf dda o Gymru (gan gyfeirio ymwelwyr i'r cyfoeth o atyniadau ymwelwyr ar draws Gogledd Cymru), gwella'r profiad wrth ymweld â chanol y dref, a gwella ansawdd a hygyrchedd atyniadau a thirnodau eiconig Ynys Gybi. Mae'r tri chynllun gwaith fel a ganlyn:

- Cyfleusterau Porthladd Caergybi (gan gynnwys y rheilffordd);
- Hen dref Caergybi; ac
- Ynys Gybi – cyrchfan eiconig i ymwelwyr.



Dyddiad dechrau: Ebrill 2016
Dyddiad gorffen: Rhagfyr 2020



Cyfanswm costau'r prosiect: £2,898,280
Buddsoddiad TAD/ERDF: £1,182,280

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	3	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	1	
Tir a ddatblygwyd	0.49 ha	
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	250m2	
Dangosyddion ychwanegol		
Nifer yr ymwelwyr	18,000	
Swyddi anuniongyrchol a grëwyd	13	

Cynnydd y prosiect

Er gwaethaf rhywfaint o oedi (mae'r prosiect tua 12 mis tu ôl yr amserlen wreiddiol), mae cynnydd yn cael ei wneud o ran paratoi ar gyfer cyflawni cydrannau cyfalaf y prosiect. Bydd marchnata a brandio Croeso Cymru, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y porth a'r dref, yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 o ran gwell arwyddion, dehongli a llwybrau. Yn yr un modd, bydd y prif waith cyfalaf (y maes parcio a dehongli) yn mynd yn ei flaen yn ystod 2019/20. Un o brif elfennau cynllun gwella Parc Gwledig y Morglawdd oedd darparu £400k o arian cyfatebol i gefnogi Prosiect Partneriaeth Tirwedd, sy'n brosiect 4 mlynedd a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Er bod y

prosiect wedi'i gymeradwyo, mae oedi gan fod partneriaid yn dal i aros am y caniatâd i ddechrau llythyr gan y Loteri.

Bu rhywfaint o ailbroffilio'r gyllideb yn bennaf oherwydd bod y cartref modur/Parc Carafannau yn cael ei eithrio o ddatblygiad y Parc Wledig.

Rheilffordd Cwm Rheidol: Cymru i'r Byd

Arweinydd: Rheilffordd Cwm Rheidol Cyf

Mae Cwm Rheidol yn rheilffordd dreftadaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol ac sy'n gweithredu o Aberystwyth. Mae'n cynnig taith hanesyddol 12 milltir sy'n mynd â Theithwyr yn ôl i'r cyfnod hyd at y 1930. Ers y 1980au Mae rheilffordd wedi bod yn casglu locomotifau stêm o bedwar ban byd. Nid yw'r locomotifau hyn erioed wedi bod ar arddangosiad cyhoeddus. Mae'r rheilffordd ers blyneddau lawer wedi bod yn gweithio tuag at y nod o ddod â'r casgliad at ei gilydd i'w arddangos yng nghanol Aberystwyth. Bydd y prosiect hwn yn galluogi'r cyntaf o'r locomotifau prin ac arbennig hyn i gael eu harddangos yn y sied locomotif Edwardaidd wedi'i hadfer, ynghyd â chynnig gwell cyfleusterau i ymwelwyr sy'n addas ar gyfer atyniad mawr. Ar ôl agor bydd y gofod newydd yn galluogi'r rheilffordd i elwa ar gyfleoedd masnachol eraill megis cynadleddau a digwyddiadau twristaidd mawr. Un maes allweddol y mae'r datblygiad hwn yn ei gynnig yw atyniad nad yw'n dymhorol drwy'r flwyddyn.



Dyddiad dechrau: Mawrth 2016
Dyddiad gorffen: Rhagfyr 2020



Cyfanswm costau'r prosiect: £2,481,502
Buddsoddiad TAD/ERDF: £868,556

Dangosydd WEFO	Targed	Cynnydd hyd yn hyn
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	34	
BBaChau y darparwyd ar eu cyfer	1	
Tir a ddatblygwyd	1.619 ha	
Safleoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd	5100m ²	
Dangosyddion ychwanegol		
Niferoedd yr ymwelwyr (cynyddrannol)	10,000	

Cynnydd y prosiect

Mae'r gwaith a gwblhawyd eisoes yn cynnwys: maes parcio estynedig newydd; platfform newydd a chysgod i deithwyr wedi'u hadleoli; trac gorsaf newydd, pwyntiau a signalau; bloc toiledau newydd; siop a swyddfa docynnau dros dro; tŵr dŵr newydd; a chlirio safleoedd ar gyfer siediau cerbydau adeiladu. Mae'r gwaith sydd eto i'w gwblhau yn cynnwys: sied gerbydau newydd (gyda'r orsaf

drenau Genedlaethol); Swyddfa docynnau newydd a siop; a chreu ardal arddangos amgueddfeydd yn Sied y Great Western.

O ganlyniad i'r angen i gynnal amserlen weithredu, dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn y bu'n bosibl gwneud gwaith. Fodd bynnag, mae'r prosiect ar y trywydd iawn fwy neu lai o ran amseru ac o fewn £1000 o wariant rhagamcanol. Fel sefydliad elusennol bach a arferai gyflawni ei holl waith cyfalaf a datblygu ei hun yn y gorffennol, bu rhai heriau i Rheilffordd Cwm Rheidol wrth fynd â'r prosiect i'r cam hwn. Mae heriau wedi cynnwys ymgyswrttu â gofynion WEFO ac ymateb iddynt a chydbwysio llif arian.